

Senedd Cymru

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Corffennaf 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddHinsawdd](https://twitter.com/SeneddHinsawdd)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Gorffennaf 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Bu Heledd Fychan AS yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	10
2. Egwyddorion cyffredinol y Bil	12
3. Ansawdd aer: Targedau cenedlaethol	19
Adrannau 1 a 2 - Targedau ansawdd aer	19
Adrannau 3 a 4 - Y broses o osod targedau ac effaith targedau	27
Adrannau 5 a 6 - Adrodd ar dargedau a'u hadolygu	30
Adran 7 - Monitro cynnydd tuag at gwrdd â thargedau	34
4. Rhan 1 - Ansawdd Aer: Darpariaethau eraill	37
Hybu ymwybyddiaeth (Adran 8).....	37
Strategaeth ansawdd aer genedlaethol (Adrannau 9 i 11).....	39
Rheoliadau ansawdd aer (adran 12).....	42
Rheoli ansawdd aer yn lleol (adrannau 13 i 15).....	43
Rheoli mwg (adrannau 16 i 18).....	47
Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd (Adrannau 19 i 20)	53
Trosedd segura llonydd (Adran 21).....	57
5. Rhan 2 - Seinweddau	61
Strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau (adrannau 22 a 23)	61
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	66
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	68

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil..... Tudalen 18

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys mesurau sydd â'r nod o leihau llygredd aer o allyriadau amaethyddol a gwella ansawdd aer..... Tudalen 18

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r Bil i annog teithio llesol. Ar y lleiaf, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer o allyriadau cerbydau a gwella ansawdd aer..... Tudalen 18

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r ffaith bod y cyfeiriadau at 'Ysgrifennydd Gwladol' yn adran 80 o Ddeddf 1995 wedi arwain at ddryswch i ddefnyddwyr terfynol y ddeddfwriaeth oherwydd, mewn perthynas â Chymru, dyletswydd Gweinidogion Cymru yw paratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol, ac adolygu'r strategaeth honno..... Tudalen 18

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu targedau ansawdd aer ar gyfer yr holl lygryddion a gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, ac ar gyfer amonia. Dylai hyn ategu, yn hytrach na disodli, y pŵer dewisol i osod targedau ar gyfer unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid gwneud rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod y bydd y Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol. Os yw'r Gweinidog o blaid derbyn yr argymhelliad hwn, byddem yn fodlon i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o lygryddion a nodir ar wyneb y Bil.
..... Tudalen 26

Argymhelliad 6. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn Argymhelliad 5, dylai:

- gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid ac amonia. Rhaid gwneud rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod mae'r Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol; ac
- ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch data/tystiolaeth a allai fod yn rhwystr i osod targedau ar gyfer yr holl lygryddion sy'n weddill a

gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd. Dylai hefyd ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Senedd ar gynnydd tuag at ddatblygu targedau bob blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.....Tudalen 27

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid i reoliadau gosod targed PM_{2.5} gael eu gwneud heb fod yn hwyrach na dwy flynedd ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol.
..... Tudalen 27

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu y gall targedau ansawdd aer a osodir o dan y Bil fod yn dargedau hirdymor, ond nad oes angen iddynt fod. Diben hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau interim ar lwybr tuag at darged hirdymor, a gosod targedau tymor byr ar gyfer llygrwyr newydd. Tudalen 27

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth osod targedau ansawdd aer.
.....Tudalen 30

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer. Dylai ymgynghoreion statudol gynnwys (ymysg eraill) y rhai a restrir yn adran 87(7B) newydd Deddf yr Amgylchedd 1995 (i'w mewnosod gan adran 12 o'r Bil).
.....Tudalen 30

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau ansawdd aer. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd. Dylai hyn ategu yn hytrach na disodli'r darpariaethau adrodd ac adolygu a nodir yn adrannau 5 a 6. Tudalen 34

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth adolygu targedau yn unol ag adran 6.
..... Tudalen 34

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog:

- egluro'r amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer ymestyn a gwella galluoedd monitro ansawdd aer presennol;
- darparu rhagor o fanylion am sut caiff y broses casglu data ei gwella at ddiben pennu a monitro cynnydd tuag at dargedau ansawdd aer; a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu gwasanaeth monitro ac asesu llygredd aer cenedlaethol i Gymru, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth.

.....Tudalen 40

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd ar y camau a gymerwyd i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer a chynnydd tuag at gamau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni. Byddem yn fodlon i'r adroddiad hwn fod yn rhan o'r adroddiad blynyddol ehangach ar gynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol (gweler Argymhelliad 15)..... Tudalen 38

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

..... Tudalen 42

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru i roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol..... Tudalen 42

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru sy'n deillio o'r ddyletswydd i roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn cael ei diwallu drwy lefel briodol o gyllid..... Tudalen 42

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod sefydliadau eraill y GIG, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu rhestru fel ymgylgoreion statudol wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol..... Tudalen 43

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i barhau i adolygu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol sydd newydd ei sefydlu..... Tudalen 47

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil:

- i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i wella ansawdd aer ar draws eu hardal; ac
- i alluogi dau neu ragor o awdurdodau cyfagos i baratoi strategaeth ar y cyd i gwrdd â'r ddyletswydd a amlinellir uchod.....Tudalen 47

Argymhelliad 21. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn Argymhelliad 20, dylai ymrwymo i gryfhau canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli ansawdd aer lleol i osod disgwyliad cryf i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ansawdd aer lleol/rhanbarthol. Tudalen 47

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod adran 18 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn amlinellu'r amgylchiadau pan ddylai awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon gwneud hyn, dylai ymrwymo i roi sylw i'r mater hwn mewn canllawiau statudol (gweler Argymhelliad 23)..... Tudalen 52

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau o dan Ran III o Ddeddf Aer Glân 1993. Dylai'r canllawiau amlinellu'r amgylchiadau lle byddai disgwyl i awdurdod lleol ddatgan Ardaloedd Rheoli Mwg, ymhlith pethau eraill..... Tudalen 52

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog nodi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Dylai'r canllawiau a roddir i awdurdodau (gweler Argymhelliad 22) egluro'r meini prawf hyn. Tudalen 52

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog ystyried a ellid a sut gellid ehangu'r ddarpariaeth rheoli mwg ledled Cymru heb effeithio'n andwyol ar aelwydydd sy'n dibynnu ar danwydd solet i goginio a gwresogi..... Tudalen 52

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog egluro pa fesurau a nodir yn yr ymgynghoriad ar leihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig y gellid eu dwyn ymlaen gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol a pha rai y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach arnynt..... Tudalen 52

Argymhelliad 27. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgynghoriad ar lleihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig, gan gynnwys y camau nesaf. Dylai'r ymateb gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n addas o uchelgeisiol.
..... Tudalen 53

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Rhaid i ymgynghoreion gynnwys y rhai y mae'r cynllun codi tâl arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y cyhoedd a busnesau.
..... Tudalen 57

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yr enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yn cael eu defnyddio at ddiben hwyluso'r broses o gyflawni polisiau sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys teithio llesol.
..... Tudalen 57

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau i roi lefelau newydd o ddirwyon ar waith, gan gynnwys pryd mae ymgynghoriad i fod i gael ei gynnal..... Tudalen 60

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd gynhwysfawr i addysgu'r cyhoedd am effeithiau niweidiol segura. Tudalen 60

Argymhelliad 32. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys diffiniad o seinweddau ar wyneb y Bil neu, fel arall, yn y Memorandwm Esboniadol. Tudalen 64

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru greu panel cyngori arbenigol sy'n cynnwys rhwydweithiau gwyddonol, elusennau, a cholegau brenhinol sy'n gweithio ym maes seinweddau. Tudalen 64

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa adnoddau ychwanegol y bydd yn eu darparu i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn gwybodaeth a gwella eu gallu i roi polisiau seinweddau ar waith yn effeithiol..... Tudalen 65

Argymhelliad 35. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Seinweddau. Dylai'r Gweinidog egluro i ba raddau roedd rhanddeiliaid allweddol yn ymwneud â'r Strategaeth ddrafft, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 26 Mehefin 2023.
..... Tudalen 65

1. Cyflwyniad

1. Ar 20 Mawrth 2023 cyflwynodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog'), Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ('y Bil') i'r Senedd. Fe wnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mawrth 2023.
2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor hwn ar gyfer craffu arno yng Nghyfnod 1, a phennwyd 14 Gorffennaf 2023 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yn ei gylch.

Cylch gorchwyl

3. Nod y cylch gorchwyl oedd ystyried:
 - Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
 - Darpariaethau'r Bil, gan gynnwys a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
 - Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol).
 - A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
 - Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

Dull craffu'r pwyllgor

4. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2023 a chafwyd 38 o ymatebion. Roedd 30 o'r rhain gan sefydliadau ac 8 gan unigolion.
5. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog ar 29 Mawrth a 24 Mai. Yn dilyn sesiwn 29 Mawrth, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ymateb ar faterion nas cyrhaeddwyd yn ystod y trafodion. Mae'r ohebiaeth hon ar gael ar wefan Senedd Cymru.
6. Ar 27 Mehefin, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth dechnegol i helpu'r Pwyllgor i graffu ar y Bil.

7. Fe wnaethom gynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda thystion allanol, gan gynnwys academyddion, cynrychiolwyr o sefydliadau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol, a llywodraeth leol. Gellir gweld manylion y rhain ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

8. Cynhaliodd y Pwyllgor arolwg cyhoeddus ar-lein, a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaethau mewn perthynas â chodi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd, ond gwahoddodd sylwadau ar bob agwedd ar y Bil. Mae crynodeb o'r canfyddiadau i'w weld ar wefan Senedd Cymru.

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

9. Clywodd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ar eu meysydd priodol o ddiddordeb. Mae eu hadroddiadau i'w cael ar wefan Senedd Cymru.

2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

10. Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol bod y Bil yn cyflawni ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru ac “i ddatblygu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol yn ansawdd yr aer, gan gefnogi cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell”.

11. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen y Bil. Yn gwyno, y camau yw:

- Mynd i'r afael ag effeithiau llygredd aer ar iechyd, sef y risg iechyd amgylcheddol unigol fwyaf yn y byd yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd;
- Mynd i'r afael â'r sgil-effeithiau ar yr economi o ganlyniad i effaith llygredd aer ar iechyd;
- Mynd i'r afael ag effeithiau andwyol llygredd aer ar yr amgylchedd a bywyd gwylt;
- Mynd i'r afael â sŵn (sy'n golygu sain diangen neu niweidiol) sydd, yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, yn gyfrannwr amgylcheddol mwyaf ond un at afiechyd yng ngorllewin Ewrop ar ôl llygredd aer; a
- Mynd i'r afael â bylchau yn y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer ansawdd aer a sŵn.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

12. Roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i helpu i sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer.

13. Dywedodd Dr Victoria Jenkins fod y Bil yn un amserol iawn o ran mynd i'r afael â mater pwysig ansawdd aer yng Nghymru yng ngoleuni dystiolaeth wyddonol gynyddol o effeithiau amrywiaeth o lygryddion ar iechyd dynol a'r amgylchedd. Ychwanegodd ei bod hi'n bwysig, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit, sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y pwerau angenrheidiol i fynd i'r afael â phryderon llygredd aer ar lefel genedlaethol a lleol a chyfrannu at nodau ehangach y Deyrnas Unedig a'r byd.

14. Nododd sawl cyfrannwr y gallai'r cyfle nesaf i ddeddfu ar ansawdd aer fod flynyddoedd i ffwrdd, gan bwysleisio'r angen i wneud pethau'n iawn a gofalu fod y ddeddfwriaeth mor gryf â phosibl.

15. Er gwaethaf eu cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil, galwodd mwyafrif y cyfranwyr am iddo fod yn fwy uchelgeisiol, o ystyried baich llygredd aer a'r angen dybryd i fynd i'r afael ag ef.

Effeithiau ar iechyd ac anghydraddoldebau

16. Tynnodd y cyfranwyr sylw at effeithiau llygredd aer ar iechyd, gan gynnwys ar fabanod, plant a phobl ifanc. Dywedodd Healthy Air Cymru:

“Air pollution is the biggest environmental threat to public health, second only to smoking. At a cost of £1bn per year to our NHS, air pollution is draining our resources, straining our health system and cutting short almost 2000 lives a year in Wales. It is a public health crisis”

17. Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod llygredd aer yn amlwg yn achos morbidrwydd a marwolaethau y gellir ei addasu ac y gellir ei osgoi, ac o'r herwydd, gellir a dylid cymryd camau i leihau neu ddileu'r niwed hwn.

18. Eglurodd sawl cyfrannwr fod llygredd aer yn gyrru anghydraddoldebau iechyd ymhellach, gyda'r rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn profi'r ansawdd aer gwaethaf. Honnodd Cyfeillion y Ddaear fod methiant i fynd i'r afael â llygredd aer yn ddigonol yn bradychu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas sydd yn aml wedi gwneud y lleiaf i gyfrannu at y broblem.

Effeithiau amgylcheddol

19. Tynnodd y cyfranwyr sylw at effaith llygredd aer ar yr amgylchedd naturiol. Yn ôl Healthy Air Cymru ac eraill, mae nitrogen deuocsid (NO₂) ac ocsidau nitrogen (NO_x) yn niweidio cnydau ac yn cyfrannu at newid hinsawdd, tra gall lefelau osôn uchel effeithio ar dwf planhigion a lleihau cynnyrch cnydau.

Teithio llesol

20. Pwysleisiodd mwyafrif y cyfranwyr rôl allweddol **teithio llesol** o ran mynd i'r afael â llygredd aer o drafnidiaeth. Dywedodd Christine Boston o Sustrans Cymru:

“we know that transport is a major contributor to poor air quality. It's the largest source of nitrogen oxides in Wales, and road traffic is a major source of carbon emissions as well. For us

in particular we're disappointed that there isn't a greater focus on active travel as part of the solution. We think there are opportunities to build that into the [Bill]".

21. Cyfeiriodd Living Streets at deithio llesol fel yr ateb i ddatrys llygredd aer a sicrhau aer glanach. Dywedodd yr Athro Enda Hayes wrth y Pwyllgor fod teithio llesol yn hanfodol wrth chwilio am atebion, yn enwedig ar gyfer trafndiaeth.

22. Honnodd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol, er mwyn i'r Bil fod yn effeithiol, fod yn rhaid iddo gynnwys mesurau ychwanegol i fynd i'r afael ag allyriadau trafndiaeth. Galwodd am i'r Bil gael ei ddefnyddio i unioni'r diffygion yn y Ddeddf Teithio Llesol.

Allyriadau amaethyddiaeth

23. Mynegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd siom nad yw'r Bil yn cynnwys mesurau i leihau **allyriadau amaethyddiaeth**. Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd:

"overwhelming evidence exists that agricultural activity plays a significant role with respect to the quality of the air we believe in myriad ways. Therefore, it is disappointing that there is little to no reference made to this fact and the need to introduce regulations within this sector as part of a holistic strategy to tackle air pollution...by failing to more explicitly address the role of agriculture in air pollution the Welsh Government are passing up a golden opportunity to achieve positive outcomes in tackling air pollution and promoting better public health".

24. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am ychwanegu adran amaethyddiaeth at y Bil.

Dull o ddrafftio

25. Cwestiynodd Joseph Carter (Asthma and Lung UK), Healthy Air Cymru ac eraill y dull a ddefnyddiwyd i ddrafftio'r Bil. Dywedodd Joseph Carter:

"Like in many Bills that are coming through the Senedd, we would, I think, all aspire to have them as good-quality, stand-alone Welsh pieces of legislation that are starting to build a Welsh body of law. And we wanted that with this Bill as well. This would be the foundations of what air quality legislation should look like here in Wales, set by this Senedd, so that our

lawyers could get behind. But what we actually have instead, in large parts of this Bill—and this is a good example of this—is this Bill simply seems to be amending existing pre-devolution legislation, so predominantly the Environment Act 1995 and the Clean Air Act 1992 [sic], and, to a lesser extent, the more recent UK Environment Act 2021, rather than doing things in Wales.”

26. Wrth wneud sylwadau ar ddarpariaethau'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, dywedodd Healthy Air Cymru:

“The Bill attempts to amend the Environment Act 1995 (section 80) in order to state that the powers to make a ‘national air quality strategy’ in Wales would now rest with Welsh Ministers at the Senedd, rather than a Secretary of State and the UK Parliament. This provision was made possible by the UK Environment Act 2021 amending the same section to specify that the UK Government would use this power to make a national air quality strategy.

This seems a very unusual way to draft a Bill and we are concerned about unforeseen consequences. We would therefore like to see this section redrafted so that it is clear that the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Bill is granting Welsh Ministers clear power to develop a Clean Air strategy with a clear review process defined in the Bill.”

27. Mae hyn yn awgrymu bod diffyg eglurder ymhlith cyfranwyr bod adran 80 o Ddeddf 1995 eisoes yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

28. Pwysleisiodd y Gweinidog y dylid ystyried y Bil yng nghyd-destun ehangach ymdrech Llywodraeth Cymru i wella ansawdd aer, yn hytrach nag ar ei ben ei hun. Dywedodd:

This is part of a suite of measures that we have in place, and it fills in a particular slot in that suite of measures. So, it's not intended to be an all-encompassing, everything-in Bill.”

29. Dywedodd y Gweinidog nad oedd ganddi unrhyw wrthwynebiad egwyddorol i ddefnyddio'r Bil i gryfhau darpariaethau'r Ddeddf Teithio Llesol. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'r rhannau o deithio llesol dan sylw yn y Bil hwn

yn ymdrin ag ansawdd aer yn unig, ac felly mae angen bod yn siŵr nad yw'r Ddeddf teithio llesol ei hun yn cael ei chyfyngu'n anfwriadol drwy wneud hynny.

30. Yn ei lythyr at y Gweinidog, dyddiedig 25 Mai 2023, gofynnodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eglurhad ynghylch pam nad oedd y Bil wedi cael ei ddefnyddio fel cyfle i ddiweddarau, gwella a symleiddio elfennau o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mewn perthynas ag ansawdd aer er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Er enghraifft, drwy drosi adrannau 80 i 91 o Ddeddf 1995 i'r Bil a'u diweddarau lle bo angen, a fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan gyfranwyr ynghylch drafftio adran 80 o Ddeddf 1995 ac adran 9 o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y gallai ailddatgan cyfran fawr o ddeddfwriaeth gan wneud diwygiadau penodol a chymharol gynnil yr un pryd fod yn ddryslyd, a byddai'n gyfystyr ag ailadrodd stori ansawdd aer yn rhannol.

Ein barn ni

Clywsom dystiolaeth gymhellol am yr angen i gyflymu camau gweithredu i fynd i'r afael â llygredd aer o ystyried ei effeithiau niweidiol ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol. I'r mwyafrif o'r cyfranwyr, mae'r Bil yn gam pwysig tuag at hyn.

Bu disgwyl mawr am y Bil, gyda llawer o gyfranwyr wedi ymgyrchu ers dros hanner degawd am 'Ddeddf Aer Glân' i Gymru. Er bod cefnogaeth gref i egwyddorion cyffredinol y Bil, roedd ymdeimlad clir nad yw'r Bil, fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn bodloni disgwyliadau'n llawn. Er bod y Bil yn bodloni llawer o'r ymrwymadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei Chynllun Aer Glân, nid yw nifer o gynigion allweddol sydd wedi eu cynnwys yn y Papur Gwyn wedi cael eu datblygu, tra bod eraill wedi cael eu gwanhau. Er nad ydym yn amau amcan sylfaenol y Bil, rydym yn pryderu nad oes ganddo sylwedd nac uchelgais.

Er ein bod ni'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, credwn fod gwendidau y mae angen rhoi sylw iddynt os yw am gyflawni ei nod o wella ansawdd aer.

Rydym yn cydnabod bod y Bil yn rhan o gyfres ehangach o fesurau i fynd i'r afael â llygredd aer. Fodd bynnag, yn yr un modd ag y dywedodd rhai o'r cyfranwyr, rydym o'r farn bod y Bil yn gyfle i gyflwyno mesurau ychwanegol a fydd yn cyfrannu at wella ansawdd aer, yn enwedig mesurau sydd wedi eu hanelu at leihau allyriadau amaethyddol a cherbydau.

Disgwyliwn i'r Gweinidog fyfyrion ar y mesurau a awgrymwyd a gyflwynwyd gan gyfranwyr ynghylch sut gellid defnyddio'r Bil i gyflymu camau gweithredu i leihau allyriadau amaethyddol.

Rydym yn nodi'r gefnogaeth gref ymhlith cyfranwyr i gynnwys mesurau yn y Bil i annog defnyddio teithio llesol gyda golwg ar fynd i'r afael ag allyriadau cerbydau. Credwn y byddai hyrwyddo teithio llesol at ddiben gwella ansawdd aer yn ychwanegiad gwerthfawr at y Bil. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog fyfyrion ar hyn.

O ran y dull drafftio, rydym yn ffafrio'n gryf bod Biliau'r Senedd yn cynnwys darpariaethau annibynnol i Gymru lle bo modd yn hytrach na darpariaethau sy'n ceisio diwygio Deddfau presennol y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr.

Rydym yn pryderu nad yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, sy'n diwygio Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mor glir ag y gallent fod. Mae Rhan IV o Ddeddf 1995 (adrannau 80 i 91) eisoes wedi ei ddiwygio gan ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan gyfranwyr yn awgrymu eu bod yn gweld adran 80 o Ddeddf 1995, ac o ganlyniad adran 9 o'r Bil, yn aneglur ac yn ddryslyd. Credwn y gellid bod wedi osgoi hyn pe bai Llywodraeth Cymru wedi dewis trosi'r darpariaethau i Gymru yn Rhan IV o Ddeddf 1995 i mewn i'r Bil. Rydym yn cydnabod y byddai gwneud hynny ar hyn o bryd yn gofyn am ailddrafftio'r Bil yn sylweddol, ac mae'n bosibl na fyddai hynny'n ddymunol. Serch hynny, ar y lleiaf, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog roi sylw i'r ffaith bod y cyfeiriadau at 'Ysgrifennydd Gwladol' yn adran 80 o Ddeddf 1995 wedi arwain at ddryswch i'r defnyddiwr terfynol.

Rydym yn ymwybodol y bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r dull o ddrafftio'r Bil a hygyrchedd cyfraith Cymru yn ei adroddiad.

O ran mater ehangach yn ymwneud â'r broses graffu, mae'n anffodus nad oedd gwybodaeth yn ymwneud â thargedau ansawdd aer sydd yn llythyr y Gweinidog, dyddiedig 27 Mehefin, ar gael yn gynharach yn y broses. Pe bai'r wybodaeth hon wedi ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, neu wedi ei darparu gan y Gweinidog yn ystod ei sesiwn dystiolaeth gychwynnol, mae'n bosibl y byddai hynny wedi mynd i'r afael â phryderon cyfranwyr ynghylch darpariaethau'r targed ansawdd aer.

Yn yr un modd, byddai wedi bod yn fuddiol pe bai'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar Seinweddau, a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin 2023, ar gael ar ddechrau'r

broses graffu er mwyn helpu i lywio ein barn ar y darpariaethau seinweddau cenedlaethol.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys mesurau sydd â'r nod o leihau llygredd aer o allyriadau amaethyddol a gwella ansawdd aer.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r Bil i annog teithio llesol. Ar y lleiaf, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer o allyriadau cerbydau a gwella ansawdd aer.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r ffaith bod y cyfeiriadau at 'Ysgrifennydd Gwladol' yn adran 80 o Ddeddf 1995 wedi arwain at ddryswch i ddefnyddwyr terfynol y ddeddfwriaeth oherwydd, mewn perthynas â Chymru, dyletswydd Gweinidogion Cymru yw paratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol, ac adolygu'r strategaeth honno.

3. Ansawdd aer: Targedau cenedlaethol

Adrannau 1 a 2 - Targedau ansawdd aer

31. Mae Adran 1 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid i unrhyw darged a osodir o dan y rheoliadau hyn nodi safon i'w chyrraedd a dyddiad erbyn pryd mae angen cyrraedd y safon honno.

32. Mae targed yn 'darged hirdymor' os yw'r dyddiad penodedig ar gyfer y targed hwnnw o leiaf 10 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodir y targed.

33. Mae Adran 2 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod o leiaf un targed mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o PM_{2.5} yn yr aer amgylchynol yng Nghymru (y cyfeirir ato fel 'targed ansawdd aer PM_{2.5}'). Gall targed ansawdd aer PM_{2.5} fod yn darged hirdymor ond nid oes angen iddo fod.

34. Rhaid i reoliadau drafft sy'n pennu targed ansawdd aer PM_{2.5} gael eu gosod gerbron y Senedd o fewn tair blynedd i'r dyddiad y bydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

35. Mae rheoliadau a wneir o dan adrannau 1 a 2 yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

36. Roedd cefnogaeth gref yn y dystiolaeth i gyflwyno targedau statudol, hirdymor i helpu i ysgogi cynnydd tuag at wella ansawdd aer. Roedd cyfranwyr yn fodlon ar y cyfan i dargedau gael eu gosod mewn rheoliadau ond roeddent yn galw am ddiwygio'r Bil i sicrhau y gosodir targedau uchelgeisiol ar gyfer amrywiaeth o lygryddion yn y tymor agos.

Dyletswydd i osod targed ar gyfer llygryddion allweddol eraill

37. Un o'r pryderon allweddol a godwyd gan gyfranwyr yw bod y Bil yn rhoi pŵer dewisol i Weinidogion Cymru osod targedau (ac eithrio ar gyfer PM_{2.5}) yn hytrach na gosod dyletswydd arnynt i wneud hynny. Eglurodd Healthy Air Cymru ac eraill fod Cynllun Aer Glân Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar amrywiaeth eang o lygryddion, gan gynnwys nitrogen deuocsid (NO₂), ocsidau nitrogen (NO_x), mater gronynnol (PM_{2.5}/PM₁₀), osôn (O₃), sylffwr deuocsid (SO₂) a

benso[a]pyren (B[a]P). Dywedasant fod y rhain i gyd wedi eu hamlygu fel blaenoriaethau lle byddai angen gweithredu i leihau lefelau.

38. Pwysleisiodd cyfranwyr fod nitrogen deuocsid ('NO₂') ynghyd â PM_{2.5} yn arbennig o niweidiol i iechyd y cyhoedd. Dywedodd Cyfeillion y Ddaear fod NO₂ yn berygl iechyd difrifol, ac nad yw Gwerth Terfyn blynyddol cyfreithiol presennol NO₂ yn cael ei fodloni o hyd ledled Cymru. Galwodd am darged NO₂ newydd sy'n gyson â Chanllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd. Adleisiodd Healthy Air Cymru a chyfranwyr eraill hyn.

39. Roedd mwyafrif y cyfranwyr yn herio rhesymeg y Gweinidog na ddylid cynnwys dyletswydd i bennu targedau ar gyfer llygryddion heblaw PM_{2.5} oherwydd diffyg data. Dywedodd yr Athro Hayes:

“we have been measuring air quality in Wales for decades and therefore have a very good understanding of spatial and temporal trends in concentrations and we must ensure that action paralysis doesn't set in while data collection is being improved.”

40. Dywedodd yr Athro Gwyneth Davies fod Sefydliad Iechyd y Byd wedi edrych ar dros 500 o bapurau, ac wedi gwneud nifer o adolygiadau systematig yn edrych ar yr holl dystiolaeth hon. Nid oedd yr Athro Davies o'r farn y gellir dweud bod angen blynyddoedd a blynyddoedd yn fwy o ddata. Roedd o'r farn bod y data ar gael, a bod canolbwyntio ar PM_{2.5} yn unig yn gyfle a gollwyd.

41. Dywedodd Joseph Carter mai'r rheswm rydym yn siarad am derfynau Sefydliad Iechyd y Byd yw bod arbenigwyr rhyngwladol wedi rhoi hyn at ei gilydd, ac mai dyma'r canllaw arfer gorau rhyngwladol. Gan hynny, mae'n hysbys at beth y mae angen anelu.

42. Galwodd Healthy Air Cymru ac eraill am ddiwygio'r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer yr holl lygryddion sydd wedi eu cynnwys yng Nghanllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, sef: deunydd gronynnol (PM_{2.5} a PM₁₀), osôn (O₃), nitrogen deuocsid (NO₂), sylffwr deuocsid (SO₂) a charbon monocsid (CO).

43. Cyfeiriodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd at dargedau Canllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd fel rhai 'llym'. Cododd bryder y gallai polisïau/mesurau newydd i ategu'r gwaith o gyflawni targedau - er enghraifft, cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd, gael effeithiau economaidd negyddol ar fusnesau bach. Fodd bynnag, ychwanegodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd ei bod yn cefnogi dull gweithredu, o fewn yr ysbryd a fynegir gan Sefydliad Iechyd y Byd, lle mae

llwybr seiliedig ar dystiolaeth gyda thargedau interim yn cael ei ddatblygu i leihau llygredd aer dros amser. Yn y modd hwn, gall busnesau bach fod yn sicr bod cymorth ar gael ar gyfer eu hanghenion.

44. Cafwyd galwadau cryf am ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau amonia (nad ydynt wedi eu cynnwys yng Nghaneliau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd), gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn tynnu sylw at effaith amonia ar iechyd ecosystemau a bioamrywiaeth.

45. Eglurodd Jenny Hawley, Cyswllt Amgylchedd Cymru:

“ammonia is really one of the pollutants where there's very little or no progress being made...a target is really urgently needed to be able to drive the action by Government and NRW and the industry...”

46. Ychwanegodd Jenny Hawley fod setiau data a dadansoddiadau ‘eithaf sylweddol’ ar gael y gellid eu defnyddio fel metrigau ar gyfer gosod targedau. Adleisiodd Eirian Macdonald o Cyfoeth Naturiol Cymru hyn, gan ddweud bod gan y corff hwnnw ddata ar hyn o bryd y gellid ei ddefnyddio i osod targed realistig.

Targedau tymor byr ac interim

47. O dan adran 1, dim ond targedau ansawdd aer hirdymor y gall Gweinidogion Cymru eu pennu. Mewn cyferbyniad, gall targed $PM_{2.5}$ a osodir o dan adran 2 fod yn darged hirdymor neu dymor byr. Dywedodd Dr Jenkins y gallai fod yn fuddiol cyflwyno targedau tymor byr yn ogystal â thymor hwy ar gyfer llygryddion eraill, ond na fyddai hynny'n bosibl o dan y ddeddfwriaeth yn ei ffurf bresennol. Awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i hyn.

48. Dywedodd yr Athro Enda Hayes mai'r hyn rydym wedi ei ddysgu yn dilyn 20 mlynedd o reoli ansawdd aer lleol yw, os gosodir targed 10 mlynedd yn y dyfodol, y ceir diffyg gweithredu yn ystod y camau cynnar ac yna y ceir rhywfaint o banig tua'r diwedd. Rhaid meddwl sut mae modd dysgu gwersi o hynny, ac awgrymodd y dylid ystyried gosod targedau interim i sicrhau cynnydd parhaus.

Targed uchelgeisiol ac amserol ar gyfer $PM_{2.5}$

49. Roedd cefnogaeth gref i'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed ar gyfer $PM_{2.5}$. Dywedodd Cyfeillion y Ddaear fod angen targed $PM_{2.5}$ yn fawr oherwydd, yn rhy hir, mae gofynion y Deyrnas Unedig ar y llygrydd aer mwyaf niweidiol hwn wedi bod yn llawer rhy isel, ac ymhell islaw Canllawiau Ansawdd

Aer Sefydliad Iechyd y Byd. Fel yr amlinellwyd yn barod, galwodd cyfranwyr am ddyletswydd gyfatebol i osod targedau ar gyfer llygryddion allweddol eraill.

50. Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain y dylai'r Bil gynnwys ymrwymiad uchelgeisiol ond rhwymol tuag at gyrraedd, neu fynd ymhellach na, chanllaw Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer PM_{2.5} a phennu amserlen ar gyfer cyflawni hyn. Galwodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau ansawdd aer uchelgeisiol ar frys drwy ymrwymo i leihau'r crynodiad o PM_{2.5} 10µg/m³ erbyn 2030, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

51. Dywedodd yr Athro Hayes ei fod yn cwestiynu'r amserlen ar gyfer gosod y targed PM_{2.5}. Dywedodd fod gan Lywodraeth Cymru ddigon o ddata/tystiolaeth yn barod i osod targed PM_{2.5} sy'n gyson â Chanllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd.

52. Dywedodd yr Athro Hayes y dylai Llywodraeth Cymru fod yn 'ddewr' a chyflymu'r amserlen hon a bwrw ymlaen â'r gwaith. Galwodd cyfranwyr eraill, gan gynnwys Healthy Air Cymru, Cyfeillion y Ddaear a Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd am amserlen fyrrach ar gyfer gosod targed PM_{2.5}. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru mai'r amserlen gyfatebol yn Neddf Amgylchedd y Deyrnas Unedig 2021 oedd 12 mis, a dywedodd y dylai'r Bil adlewyrchu hyn 'yn ddelfrydol'.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

53. Wrth egluro pam mae angen y pŵer i osod targedau ansawdd aer, dywedodd y Gweinidog fod adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau eang iawn, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ansawdd aer, a allai gynnwys gosod targedau hirdymor neu dymor byr. Dywedodd fod Bil hwn yn adeiladu ar y darpariaethau hynny drwy ddarparu pwerau penodol yn hytrach na chyffredinol i osod targedau hirdymor, ac, yn benodol iawn, yn gosod dyletswydd i osod targed mewn perthynas â PM_{2.5}.

54. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai targedau'n cael eu gosod mewn rheoliadau yn hytrach na'u cynnwys ar wyneb y Bil fel bod modd cadw'r rheoliadau'n gyfredol yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Ym marn y Gweinidog, os ydynt ar wyneb y Bil, yna yn amlwg maent yn bendant iawn, ac mae'n rhaid dod yn ôl a llunio deddfwriaeth sylfaenol i'w diweddarau. Y bwriad, gan hynny, yw ei ddiogelu at y dyfodol.

55. Pan holwyd y Gweinidog pam mae'r Bil yn rhoi pŵer yn ôl disgrisiwn i Weinidogion Cymru osod targedau (ac eithrio ar gyfer PM_{2.5}) yn hytrach na dyletswydd, dywedodd y Gweinidog nad oedd digon o ddata ar hyn o bryd i bennu pa dargedau eraill sydd eu hangen. Ychwanegodd:

"This is how I think of it. Why aren't we putting other targets than PM_{2.5}? Well, what for? What would you like us to put the targets in for? What particular pollutants would you like to include? And as soon as you get to that level of detail, you start to see the difficulty of saying, 'The Welsh Government must set a target for—' and fill in the blank. That's part of the problem. We don't know what the data will produce that tells us what we have to do."

56. Fodd bynnag, yn ei llythyr dyddiedig 27 Mehefin, dywedodd y Gweinidog fod gwaith i ddatblygu targedau eisoes wedi dechrau ar gyfer y llygryddion a ganlyn: mater gronynnol (PM10), osôn, nitrogen deuocsid, carbon monocsid, sylffwr deuocsid ac amonia.

57. Ar fater targed ar gyfer amonia, dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod targed 'yn bendant'. Fodd bynnag, ychwanegodd na fuasai modd gosod targed ar gyfer amonia yfory, gan na fuasai ganddi syniad beth ddylai'r targed hwnnw fod, ond mai'r hyn mae'r Bil hwn yn ei wneud yw rhoi proses i

wneud hynny. Bydd y targedau hyn yn cymryd sbel, oherwydd mae'r data yn mynd i gymryd sbel, meddai.

58. Wrth wneud sylwadau ar yr angen am dargedau tymor byr neu interim, dywedodd y Gweinidogion:

“we already have existing targets, so we're not starting from zero. The issue is: do we need more interim targets than the existing ones? Will we divert work from the actual targets into trying to set the interim targets? Off the back of what exactly, I don't know, if we haven't got the data. So, there are considerations there. But also the committee really does need to take account of the fact that there are existing targets. They're not especially effective targets, but they do exist and we feed into them.”

59. Dywedodd swyddog y Gweinidog wrth y Pwyllgor y gallai targedau interim fod yn briodol yn dibynnu ar y targed gwirioneddol yr ceisir ei osod a beth yw ei ddiben”. Pwysleisiodd fod gan Weinidogion Cymru y pŵer yn barod i osod targedau tymor byr a/neu interim.

60. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi mewn sefyllfa i ddarparu amserlenni dangosol ar gyfer gosod targedau, ac eithrio ar gyfer PM_{2.5}. Fodd bynnag, yn ei llythyr, dyddiedig 27 Mehefin, dywedodd wrth y Pwyllgor, y disgwylir i waith i gwmpasu a datblygu achosion ar gyfer newid ac opsiynau targed posibl ar gyfer llygryddion aer gael eu cwblhau i'r Gweinidog eu hystyried erbyn mis Gorffennaf 2025. Dywedodd ei bod yn debygol y bydd Gweinidogion yn ystyried y cyngor ac yn penderfynu ar y camau nesaf yn ystod haf 2025.

61. Wrth egluro pam mae tair blynedd yn amserlen addas ar gyfer gosod targed PM_{2.5}, dywedodd y Gweinidog fod yr amser hwn yn angenrheidiol gan fod nifer sylweddol o gamau i'w cymryd. Mae hyn yn cnnwys pennu cwmpas y targedau, dadansoddi opsiynau targed uchelgeisiol, fforddiadwy ac ymarferol, ymgysylltu ac ymgynghori priodol a drafftio'r targedau'n llawn a manylion ynghylch sut mae'n rhaid eu hasesu. Ychwanegodd fod datblygu targedau PM_{2.5} yn Lloegr wedi cymryd mwy na thair blynedd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ei gwblhau.

Ein barn ni

Nid yw'r darpariaethau targed ansawdd aer yn y Bil yn bodloni disgwyliadau cyfranwyr. Nid oes gofyniad ar Weinidogion Cymru i osod targedau ansawdd aer hirdymor (ac eithrio ar gyfer PM_{2.5}) - yn hytrach, pŵer disgrisiwn eang i'w

galluogi i osod targedau os/pan fyddant yn penderfynu gwneud hynny. Nid yw hyn yn rhoi'r sicrwydd mae cyfranwyr yn ei geisio y bydd targedau uchelgeisiol, sy'n gyson â Chanllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, yn cael eu gosod yn y tymor agos.

Wrth gymryd pwerau gweithredol, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru allu cyfiawnhau'r angen amdanynt ac egluro sut a phryd y cânt eu defnyddio. Nid yw'n foddhaol, yn achos y pŵer yn adran 1, nad oedd y Gweinidog yn gallu darparu gwybodaeth sylfaenol ar y dechrau i'r Pwyllgor hwn am y mathau o dargedau a fydd yn cael eu gosod neu'r amserlenni y mae'n gweithio tuag atynt (neu'n anfodlon gwneud hynny). Er i'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth hon yn ddiweddarach, nid yw'n glir pam na chafodd ei rhoi ar gael ar ddechrau'r broses graffu, o ystyried ei phwysigrwydd.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddeddfu ar gyfer targedau hirdymor yn ei Chynllun Aer Glân i Gymru. Mae'n siomedig mai cyfyngedig fu'r cynnydd, dair blynedd yn ddiweddarach, tuag at ddatblygu targedau. Credwn y bydd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer llygryddion allweddol yn rhoi ysgogiad cryf i Lywodraeth Cymru gyflymu'r cynnydd tuag at ddatblygu targedau, sydd wedi bod yn brin hyd yma.

Nodwn haerid y Gweinidog na fyddai hi'n gallu bodloni dyletswydd i osod targedau (ac eithrio ar gyfer PM_{2.5}) yn y tymor agos oherwydd diffyg data/tystiolaeth. Mae'n anodd cysoni hyn â barn cyfranwyr bod digon o ddata/tystiolaeth ar gael yn barod, gan gynnwys ar ffurf canllawiau a argymhellir yng Nghanllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd.

Ein ffafriaeth gref yw gosod targedau ansawdd aer ar gyfer yr holl lygrwyr a gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, ac amonia, yn yr amser byrraf posibl, a bod y Bil yn adlewyrchu hyn. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon ymrwymo i hyn, fe ddylai hi, ar y lleiaf, osod targedau ar gyfer nitrogen deuocsid ac amonia, sy'n peri pryder allweddol i gyfranwyr o ystyried eu heffaith niweidiol ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Yn ychwanegol, fe ddylai'r Gweinidog roi blaenoriaeth i ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch data/tystiolaeth a allai fod yn rhwystr i osod targedau ar gyfer yr holl lygryddion sy'n weddill a gwmpesir yng Nghanllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd.

Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, mae adran 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau hirdymor yn unig. Yn ymarferol, gallai'r dyddiad erbyn pryd mae'n rhaid cyrraedd targed fod flynyddoedd i ffwrdd. Er enghraifft, rhaid cyrraedd y targedau ansawdd aer PM_{2.5} diweddaraf ar gyfer Lloegr erbyn 2040. Byddem yn disgwyl i dargedau interim ar y trywydd tuag at y dyddiad targed terfynol gyd-

fynd ag unrhyw darged hirdymor. Bydd hyn yn helpu i ysgogi gweithredu yn y blynyddoedd cynnar ac yn sicrhau cynnydd parhaus tuag at gyflawni'r targed.

Rydym yn nodi bod gan Weinidogion Cymru bwerau cyffredinol yn barod o dan adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a fyddai'n eu galluogi i osod targedau tymor byr a/neu interim. Fodd bynnag, ni fyddai targedau o'r fath yn destun yr un trefniadau monitro, adrodd ac adolygu ag unrhyw darged hirdymor a osodir o dan y Bil. Disgwylwn i'r Gweinidog gyflwyno set gynhwysfawr o dargedau hirdymor ac interim. O ystyried hyn, credwn y dylid ehangu'r pŵer yn adran 1 i alluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau interim a/neu tymor byr. Disgwylwn i'r Bil gael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

Y cynnig yn y Papur Gwyn oedd gosod y targed ar gyfer y $PM_{2.5}$ o fewn dwy flynedd i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Nid yw'n glir, felly, pam mae'r Bil yn darparu ar gyfer amserlen o dair blynedd. Fel yr awgrymwyd gan y Gweinidog mewn tystiolaeth i ni, os bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fodloni amserlen o dair blynedd, bydd yn dyrannu adnoddau ar y sail honno. Mae llythyr y Gweinidog, dyddiedig 27 Mehefin, yn cadarnhau hyn, gan gynghori na fydd rheoliadau i osod y targed $PM_{2.5}$ yn cael eu gosod tan fis Rhagfyr 2026, a fydd yn nhymor nesaf y Senedd. Mae hyn yn anfoddfaol, yn brin o uchelgais ac yn methu ag adlewyrchu brys y broblem. Disgwylwn i'r Gweinidog gwtogi'r amserlen ar gyfer gosod y targed $PM_{2.5}$ i ddwy flynedd, gan adlewyrchu'r cynnig yn y y Papur Gwyn.

Argymhellion

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu targedau ansawdd aer ar gyfer yr holl lygryddion a gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, ac ar gyfer amonia. Dylai hyn ategu, yn hytrach na disodli, y pŵer dewisol i osod targedau ar gyfer unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid gwneud rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod y bydd y Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol. Os yw'r Gweinidog o blaid derbyn yr argymhelliad hwn, byddem yn fodlon i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o lygryddion a nodir ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 6. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn Argymhelliad 5, dylai:

- gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid ac amonia. Rhaid gwneud rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod mae'r Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol; ac

- ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch data/tystiolaeth a allai fod yn rhwystr i osod targedau ar gyfer yr holl lygryddion sy'n weddill a gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd. Dylai hefyd ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Senedd ar gynnydd tuag at ddatblygu targedau bob blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid i reoliadau gosod targed $PM_{2.5}$ gael eu gwneud heb fod yn hwyrach na dwy flynedd ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu y gall targedau ansawdd aer a osodir o dan y Bil fod yn dargedau hirdymor, ond nad oes angen iddynt fod. Diben hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau interim ar lwybr tuag at darged hirdymor, a gosod targedau tymor byr ar gyfer llygrwyr newydd.

Adrannau 3 a 4 – Y broses o osod targedau ac effaith targedau

62. Mae Adran 3 yn nodi'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn gosod, diwygio neu ddirymu targed ansawdd aer hirdymor, a chyn gosod neu ddiwygio targed ansawdd aer $PM_{2.5}$. Ni ellir dirymu targed $PM_{2.5}$ drwy reoliadau a wneir o dan Adran 2.

63. Mae adran 3(1) o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau, geisio cyngor gan rai maent o'r farn eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol; a rhoi sylw i wybodaeth wyddonol ynghylch llygredd aer.

64. Ni all Gweinidogion Cymru ddirymu neu ostwng targed presennol oni bai eu bod yn fodlon na fyddai cyflawni'r targed presennol o fudd sylweddol o'i gymharu â pheidio â'i gyrraedd neu gyrraedd targed is; neu oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod neu ei ddiwygio ddiwethaf, y byddai'r costau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu gostau eraill cwrdd ag ef yn anghymesur â'r buddion.

65. Cyn gostwng neu ddirymu targed, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru ddatganiad sy'n egluro pam maent yn fodlon bod o leiaf un o'r seiliau a amlinellir uchod wedi ei fodloni.

66. Mae Adran 4 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod targedau hirdymor a'r targedau $PM_{2.5}$ yn cael eu cyrraedd.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

67. Roedd barn gymysg ymysg cyfranwyr am y darpariaethau gosod targedau. Dywedodd yr Athro Hayes bod creu proses o fewn y Bil i gael fframwaith gosod targedau sy'n wyddonol gadarn ond y gellir ei addasu yn gwneud synnwyr gan ei fod yn galluogi'r Bil i dderbyn tystiolaeth newydd a bod yn rhagweithiol wrth dargedu materion sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, roedd Dr Jenkins o'r farn bod y ddyletswydd yn adran 3(1) yn rhoi 'disgresiwn eithaf eang' i Weinidogion Cymru. Ychwanegodd nad oes unrhyw beth yn adran 3 i gefnogi gosod targedau uchelgeisiol. Roedd mwyafrif y cyfranwyr o'r un farn.

68. Yn ei Rhaglen Lywodraethu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru a fyddai'n gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Er bod yn rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor arbenigol annibynnol a bod yn rhaid iddynt ystyried gwybodaeth wyddonol wrth osod targedau, nid oes cyfeiriad penodol at Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd hyn yn bryder allweddol i fwyafrif y cyfranwyr. Roedd Christine Boston o Sustrans Cymru o'r farn os nad yw'n geiriad yn eglur bod risg y bydd Gweinidogion yn fwy gofalus. Datganodd ei barn fod yn rhaid i'r Bil hwn fod mor uchelgeisiol â phosibl. Dywedodd Joshua James o Living Streets wrth y Pwyllgor:

"...the WHO standards are widely accepted as what all countries should be aiming for, and not putting that in the actual legislative text of the Bill I think misses a trick. This is an Act to improve our environment and to improve our air quality. To not mention the global standard as part of the target-setting process is one of the main problems we have in terms of the ambition of the Bill."

69. Dywedodd Healthy Air Cymru ac eraill fod yn rhaid nodi'n glir yn y Bil ei hun bod angen i ganllawiau cyfredol Sefydliad Iechyd y Byd fod yn sylfaen i'r broses o osod targedau, a bod yn rhaid i dargedau fod yn gyson â nhw. Awgrymodd Steve Manning o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y buasai dyletswydd i 'roi sylw i' Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd yn fwy priodol. Ychwanegodd bod ymarferoldeb eu cyflawni mewn rhai lleoliadau yn cael ei orbwyso gan y lefelau cefndir cyffredinol o lygryddion y mae gennym lai o reolaeth drostynt.

70. Roedd barn gymysg ymhlith cyfranwyr am y pŵer i Weinidogion Cymru ddirymu neu ostwng targedau. Er bod rhai cyfranwyr o'r farn bod y pŵer yn angenrheidiol i ddarparu "elfen o hyblygrwydd" i addasu i newidiadau mewn amgylchiadau, mynegodd eraill bryder y gellid ei ddefnyddio i ostwng targedau lle na wnaed digon o gynnydd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

71. Wrth wneud sylwadau ar y dull o osod targedau, esboniodd y Gweinidog:

“Mae tystiolaeth ynglŷn ag effeithiau llygryddion aer yn dod i'r amlwg yn barhaus. Felly, mae'n bwysig gallu ymateb i amgylchiadau wrth iddynt newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lunio polisiau ar sail tystiolaeth, a bydd yn ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer wrth ddatblygu cynigion ar gyfer targedau, ochr yn ochr â chyngor arbenigol annibynnol, tystiolaeth a dadansoddiadau o amrediad o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys manteision lleihau lefelau o lygryddion i iechyd, ac ymarferoldeb a hyfywedd economaidd cymryd camau gwahanol a allai gyflawni targedau posibl.”

72. Yn ogystal â'r gofynion a nodir yn adran 3(1), dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghoriad cyhoeddus llawn ac agored ar gynigion deddfwriaethol.

73. Cydnabu'r Gweinidog y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch y pŵer i ddirymu neu ostwng targedau, ond pwysleisiodd y byddai rheoliadau i wneud hyn yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod y galwadau cryf gan gyfranwyr ar i Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd gael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer targedau ansawdd aer Cymru yn y Bil. Er bod y Gweinidog wedi ymrwymo i ystyried Canllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd wrth osod targedau, ni fyddai unrhyw rwymedigaeth ar Weinidog yn y dyfodol mewn Llywodraeth wahanol i Gymru i anrhydeddu'r ymrwymiad hwn.

Mae amharodrwydd y Gweinidog i gynnwys cyfeiriad at ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar wyneb y Bil, yn rhannol, oherwydd pryderon y gallai'r rhain gael eu disodli gan gyngor/canllawiau sefydliad arall. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl hon, yn enwedig o ystyried bod Sefydliad Iechyd y Byd wedi bodoli ers dros 70 mlynedd a'i fod yn cael ei gydnabod a'i barchu'n fyd-eang.

Er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i 'roi sylw i' Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd wrth wneud rheoliadau sy'n pennu targedau ansawdd aer. Byddai hyn yn sicrhau y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried, cyfiawnhau a dangos sut maent wedi ystyried Canllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd cyn gosod

unrhyw darged. Ar yr un pryd, byddai'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd pe bai Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â'u dilyn - er enghraifft, oherwydd costau cymdeithasol neu economaidd anghymesur.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i osod targedau. Fodd bynnag, fel yr uchod, er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud hyn.

Er ein bod ni'n cydnabod pryderon cyfranwyr ynghylch y pŵer i ddirymu neu ostwng targedau, rydym yn fodlon bod adrannau 3(3) a 3(4), a'r defnydd o weithdrefn penderfyniad cadarnhaol, yn darparu mesurau diogelu digonol i sicrhau y caiff ei arfer yn briodol.

Argymhellion

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth osod targedau ansawdd aer.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer. Dylai ymgynghoreion statudol gynnwys (ymysg eraill) y rhai a restrir yn adran 87(7B) newydd Deddf yr Amgylchedd 1995 (i'w mewnosod gan adran 12 o'r Bil).

Adrannau 5 a 6 – Adrodd ar dargedau a'u hadolygu

74. Mae Adran 5 yn nodi'r dyletswyddau adrodd a osodir ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â thargedau hirdymor a thargedau ansawdd aer PM_{2.5}. Rhaid i reoliadau sy'n gosod targedau osod dyddiad adrodd ar gyfer y targedau hynny. Ar y dyddiad adrodd hwnnw, neu cyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru wneud a chyhoeddi datganiad sy'n nodi a yw'r targed hwnnw wedi ei gyflawni ai peidio, neu nodi na ellir penderfynu ar hynny.

75. Mae adran 5(4) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, os nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, o fewn 12 mis ar ôl gosod y datganiad, osod adroddiad sy'n esbonio'r rhesymau a'r camau maent wedi eu cymryd neu y byddant yn eu cymryd i sicrhau bod y safonau penodedig yn cael eu cyrraedd 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol'.

76. Pan na all Gweinidogion Cymru benderfynu a yw targed wedi cael ei gyrraedd rhaid iddynt, o fewn 6 mis i osod y datganiad, osod datganiad pellach yn nodi'r wybodaeth ofynnol.

77. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu targedau o fewn pum mlynedd i osod y targed cyntaf a phob pum mlynedd ar ôl cwblhau'r adolygiad cyntaf. Wrth gynnal adolygiad, byddai gofyn i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan arbenigwyr annibynnol perthnasol, a rhoi sylw i'r wybodaeth wyddonol am lygredd aer.

78. Ar ôl cwblhau adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad yn nodi unrhyw gamau maent yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adolygiad.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

79. Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau ar gyfer adrodd ar dargedau. Dywedodd Dr Jenkins fod adran 5 yn darparu fframwaith clir a llym ar gyfer adrodd ar dargedau.

80. Er gwaethaf yr uchod, galwodd sawl cyfrannwr am ddiwygio adrannau 5(4) a 5(5) i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cymryd camau amserol pan na chyrhaeddir targedau. Dywedodd Healthy Air Cymru:

“With almost 2,000 lives cut short every year due to air pollution, we worry that 12 months to publish a report setting out what the Welsh Government will do to correct air pollution exceedance is too long. We would like to see this reduced to 6 months, if not further.”

81. Dywedodd Cyfeillion y Ddaear fod Adran 5(5) yn cyfeirio at yr angen i'r adroddiad nodi sut bydd y safon yn cael ei chyflawni 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol' - yn lle hynny dylid fframio hyn fel un sydd angen ei chyflawni - er enghraifft, yn yr amser byrraf posibl.

82. Mynegodd sawl cyfrannwr, gan gynnwys yr Athro Hayes, bryder nad yw'r Bil yn darparu mecanwaith ar gyfer adrodd yn barhaus ar gynnydd tuag at dargedau. Galwodd Healthy Air Cymru ac eraill am ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol ar gynnydd.

83. Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau ar gyfer adolygu targedau, gan gynnwys y cyfnod adolygu pum mlynedd. Esboniodd yr Athro Hayes y ceir amrywiadau naturiol o flwyddyn i flwyddyn wrth edrych ar ddata ansawdd aer, oherwydd amodau meteorolegol, felly ni ddylid cael cyfnod byrrach na phum

mlynedd gan fod angen gallu edrych ar dueddiadau ystyrllon, ac mae gweithredu yn cymryd amser.

84. Gofynnodd Healthy Air Cymru ac eraill am eglurhad ynghylch y llwybrau sydd ar gael i ddinasyddion a sefydliadau geisio iawndal cyfreithiol mewn achosion lle eir y tu hwnt i derfynau llygredd aer a/neu pan na chyrhaeddir targedau. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod y Bil yn dangos yn amlwg iawn beth yw'r bwlch llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Dywedodd y bydd gan y corff llywodraethu newydd yn y dyfodol ran allweddol i'w chwarae wrth ddwyn y llywodraeth i gyfrif mewn perthynas â thargedau ansawdd aer, a mynegodd siom ynghylch yr oedi parhaus wrth gyflwyno deddfwriaeth llywodraethu amgylcheddol. Gwnaeth Dr Jenkins bwynt tebyg, gan ddweud:

“Going forward it is very important that the Welsh Government bring forward proposals to set up an environmental body that will have the powers to hold it to account in relation to air quality targets under current national legislation (including EU retained law) as well as this new legislation.”

Tystiolaeth gan y Gweinidog

85. Wrth wneud sylwadau ar y gofynion adrodd ac adolygu, dywedodd y Gweinidog:

“I personally think that a reporting duty in the middle of the term, when whoever the Government is still has a chance to do something about it, is a very important thing. Reporting it five days before the election would clearly be much more problematic, right? I do think it matters where in the cycle it reports as well. So, we think we have struck in the Bill the right balance of reporting, both before the target is set, during the monitoring of the target, and then once we are saying whether we have or haven't met it”.

86. Ar fater iawndal cyfreithiol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yr holl rwymedïau cyfraith gyhoeddus ar gael. Ychwanegodd:

“What this Bill does is it puts the Welsh Ministers under a set of duties to do various things, and gives them a set of powers. So, the challenge would be by way of a judicial review to say that the Welsh Government had either not correctly performed its

duty, so it had made decisions that were outwith its duties, or it had not correctly exercised its powers.”

Ein barn ni

Diben y darpariaethau adrodd yw sicrhau y gellir dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif o ran eu cynnydd tuag at gyflawni targedau. Mae'r Pwyllgor hwn wedi cael profiad uniongyrchol o anawsterau craffu'n effeithiol ar gynnydd tuag at gyflawni targedau lleihau allyriadau carbon/cyllidebau carbon oherwydd gwendidau yn y trefniadau adrodd statudol. Rhaid i ni ddysgu gwersi o hyn.

Rydym yn pryderu nad yw'r Bil, fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, yn rhoi digon o gyfle i'r Senedd graffu'n barhaus ar Weinidogion Cymru o ran y cynnydd tuag at dargedau ansawdd aer. Mae nifer o resymau am hyn.

Yn gyntaf, mater i Weinidogion Cymru fydd pennu dyddiad adrodd ar gyfer targedau ansawdd aer. Yn ymarferol, gallai hyn fod flynyddoedd ar ôl i'r targedau hynny gael eu pennu, gan adael y Senedd heb lawer o gyfle i graffu ar gynnydd mewn unrhyw ffordd ystyrllon yn ystod y blynyddoedd rhwng hynny. Yn ail, er bod pwrpas i 'graffu ôl-weithredol', sy'n digwydd ar ôl y dyddiad targed terfynol, dim ond gwerth cyfyngedig y gellir ei briodoli iddo o ran ceisio gwella effeithiolrwydd a chanlyniadau'r llywodraeth. Yn olaf, mae'r Bil yn rhoi modd i Weinidogion Cymru wneud datganiad i'r Senedd bob pum mlynedd ar ôl cwblhau adolygiad o dargedau o dan adran 6. Er ein bod ni o'r farn bod cylch pum mlynedd yn rhesymol at ddiben adolygu'r targedau, rydym yn pryderu na fyddai adroddiadau anfyfych o'r fath yn rhoi digon o gyfle i'r Senedd graffu'n effeithiol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni targedau.

Disgwylwn i'r Gweinidog ailedrych ar y darpariaethau adrodd ac adolygu gyda'r bwriad o sicrhau'r bod y Senedd yn cael digon o gyfle i graffu ar gynnydd tuag at dargedau yn barhaus.

Rydym yn cytuno â chyfranwyr y dylai'r amserlen y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o'i mewn i nodi pam na chyrhaeddwyd targed gael ei chwtdgi o 12 mis i chwe mis.

Fel y cyfeiriwyd ato yn y dystiolaeth, mae'r Bil yn tynnu sylw at y bwlch llywodraethu amgylcheddol sylweddol ac annerbyniol sy'n parhau yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yr unig lwybr sydd ar gael i ddinasyddion yng Nghymru er mwyn ceisio iawndal cyfreithiol am achosion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol gan Lywodraeth Cymru yw Adolygiad Barnwrol. Mae gwendidau Adolygiad Barnwrol fel llwybr at gyfiawnder

amgylcheddol wedi cael llawer o sylw gan y sector amgylcheddol ac eraill: mae'r seiliau dros geisio Adolygiad Barnwrol yn gyfyng; mae'r broses yn heriol; a gall fod yn broses hirfaith a chostus iawn. Mae angen dybryd am lwybrau mwy hygyrch a fforddiadwy i ddinasyddion Cymru allu gorfodi eu hawliau a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am dorri cyfraith amgylcheddol.

Ers dechrau'r Chweched Senedd, rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu cyflwyno Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru. Mae methiant Llywodraeth Cymru i wneud hynny'n golygu bod gan ddinasyddion Cymru lai o fynediad at gyfiawnder amgylcheddol nag oedd ganddynt cyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac eu bod o dan anfantais o gymharu â dinasyddion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, lle mae cyrff llywodraethu eisoes wedi bod ar waith ers peth amser. Rydym yn ailadrodd ein galwadau ar i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu Bil llywodraethu amgylcheddol.

Rydym yn fodlon ar y cyfan ar y darpariaethau adolygu yn adran 6. Fodd bynnag, yn unol ag Argymhelliad 9, credwn, wrth adolygu targedau, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd. Disgwylwn i adran 6 gael ei diwygio i adlewyrchu hyn.

Argymhellion

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau ansawdd aer. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd. Dylai hyn ategu yn hytrach na disodli'r darpariaethau adrodd ac adolygu a nodir yn adrannau 5 a 6.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth adolygu targedau yn unol ag adran 6.

Adran 7 – Monitro cynnydd tuag at gwrdd â thargedau

87. Mae Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer cael gafael ar ddata i fonitro cynnydd tuag at gyrraedd targedau ansawdd aer, a chyhoeddi'r data hynny.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

88. Roedd cefnogaeth eang i'r ddyletswydd o dan adran 7. Fodd bynnag, pwysleisiodd sawl cyfrannwr yr angen am welliannau o ran y gwaith monitro ansawdd aer presennol. Awgryma Healthy Air Cymru ac eraill fod y dull presennol o fonitro llygredd aer cenedlaethol a lleol yn annigonol, yn creu dryswch i'r cyhoedd ac yn rhoi darlun ffug o'r heriau llygredd aer mae Cymru yn eu hwynebu. Eglurodd yr Athro Hayes y byddai angen newid y dull gweithredu presennol, sy'n seiliedig ar fonitro cydymffurfiaeth, er mwyn ategu gwaith rheoli ansawdd aer yn rhagweithiol. Pwysleisiodd Joseph Carter bwysigrwydd datblygu rhwydwaith monitro cenedlaethol, gan nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i wneud hyn.

89. Awgrymodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol y byddai angen cyllid digonol ar gyfer newid y dull o fonitro a/neu fonitro ychwanegol, gan dynnu sylw at y cyfyngiadau presennol o ran capasiti ac adnoddau.

90. Dywedodd y Gymdeithas Cerbydau Trydan y bydd cyhoeddi data yn barhaus o fudd i ddeall effeithiau newidiol teithio yng nghyd-destun gwaharddiad arfaethedig y Deyrnas Unedig ar geir petrol a diesel confensiynol newydd. Ychwanegodd fod yn rhaid i ddata fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn rhoi ffordd o ddadansoddi a chymharu â setiau data eraill, gan gynnwys amddifadedd a dangosyddion cymdeithasol eraill.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

91. Eglurodd y Gweinidog fod gwaith monitro a chasglu data ar lefel leol a chenedlaethol yn cael ei wneud at ddiben penodol ar hyn o bryd. Pwysleisiodd yr angen i wella galluedd monitro i alluogi Llywodraeth Cymru i gasglu'r math cywir o ddata i osod targedau ansawdd aer ac i fonitro cynnydd tuag at y targedau hynny. Dywedodd nad oes data gwych ar gyfer Cymru, a bod gofyn dechrau o sylfaen isel iawn o ran y math cywir o ddata, felly bydd angen datblygu'r data.

92. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system monitro ansawdd aer ledled Cymru sydd mewn gwirionedd o ansawdd uwch ac sy'n rhoi set hollol wahanol o ddata na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

Ein barn ni

Rydym yn cefnogi'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cael data ansawdd aer i alluogi monitro cynnydd tuag at y targedau a osodwyd o dan y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai hyn yn rhoi modd o gasglu data sydd ei angen i osod targedau ansawdd aer. Rydym eisoes

wedi argymhell yn gynharach yn yr adroddiad hwn fod y Gweinidog yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau data/tystiolaeth a allai fod yn rhwystr i osod targedau.

Clywsom y bydd angen ehangu a gwella galluoedd monitro ansawdd aer presennol er mwyn gallu monitro cynnydd tuag at dargedau ansawdd aer. Byddem yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ar yr amserlen mae'n gweithio tuag ati ar gyfer hyn, a rhagor o fanylion am sut bydd y broses gwella data yn cael ei gwella.

Yn ei Chynllun Aer Glân, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithredu gwasanaeth monitro ac asesu llygredd aer cenedlaethol erbyn mis Rhagfyr 2022. Rydym yn pryderu bod oedi wedi bod yn yr amserlen hon, heb unrhyw arwydd o'r gwasanaeth hyd yn hyn. Byddem yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog ar ddatblygiad y gwasanaeth, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu.

Argymhellion

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog:

- egluro'r amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer ymestyn a gwella galluoedd monitro ansawdd aer presennol;
- darparu rhagor o fanylion am sut caiff y broses casglu data ei gwella at ddiben pennu a monitro cynnydd tuag at dargedau ansawdd aer; a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu gwasanaeth monitro ac asesu llygredd aer cenedlaethol i Gymru, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth.

4. Rhan 1 – Ansawdd Aer: Darpariaethau eraill

Hybu ymwybyddiaeth (Adran 8)

93. Mae Adran 8 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer, a ffyrdd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

94. Roedd cefnogaeth eang i'r ddyletswydd i hybu ymwybyddiaeth, gyda chyfranwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwella dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi llygredd aer, ei effeithiau ar iechyd, a ffyrdd o leihau llygredd aer.

95. Er ei fod yn cefnogi'r ddyletswydd, cyfeiriodd yr Athro Hayes at adran 8 fel un 'danddatblygedig'. Esboniodd y gallai cydymffurfio â'r Bil fel y mae ar hyn o bryd fod yn ddim mwy na rhoi gwybodaeth ar wefannau a hyrwyddo digwyddiadau achlysurol fel y Diwrnod Aer Glân Cenedlaethol. Mae hyn eisoes yn digwydd, a phrofwyd mai effaith gyfyngedig a gaiff ar ymwybyddiaeth a gweithredu, meddai. Cyfeiriodd at gynllun gweithredu 15 pwynt Canolfan Adnoddau Rheoli Ansawdd Aer Prifysgol Gorllewin Lloegr, sy'n creu dull mwy cynhwysol o ymgysylltu â'r cyhoedd a mwy o effaith wrth annog newid ymddygiad. Awgrymodd y gellid defnyddio hwn i lywio'r dull a ddefnyddir yng Nghymru.

96. Galwodd Healthy Air Cymru ac eraill am ymgyrchoedd gwybodaeth wedi eu targedu ar effeithiau llygredd aer a llosgi domestig ar yr amgylchedd ac iechyd, yn ogystal â darparu cyngor a chymorth i gyflenwyr a chartrefi ar sut i leihau lleithder mewn pren. Pwysleisiodd Cyfeillion y Ddaear a Living Streets yr angen i hybu ymwybyddiaeth o atebion newid ymddygiad, yn enwedig newid moddol i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

97. Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru y gallai'r ddyletswydd gael ei hymestyn i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

98. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd hi wedi ystyried cynnwys rhagor o fanylion yn adran 8 am y camau y byddai disgwyl i Weinidogion Cymru eu cymryd wrth roi'r ddyletswydd ar waith. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cyflawni i weithredu'r ddyletswydd (fel yr amlinellir yn y

Memorandwm Esboniadol). Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn canolbwyntio ymdrechion yn y meysydd cywir.

99. Eglurodd y Gweinidog nad yw'r Bil yn cynnwys trefniadau penodol ar gyfer monitro cydymffurfiaeth neu effeithiolrwydd y ddyletswydd oherwydd bod y ddarpariaeth hon wedi ei drafftio'n fras yn fwriadol er mwyn osgoi cyfyngu ar y ffyrdd y gallwn hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer. Ychwanegodd y byddai trefniadau monitro yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid. Yn ogystal, os caiff y cynllun cyflawni ei gynnwys yn strategaethau ansawdd aer Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, byddai'r camau gweithredu yn destun yr un gwaith craffu, monitro a gwerthuso â'r cynllun ehangach.

100. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai hi'n sicr yn ystyried ymestyn y ddyletswydd i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer i'r sector cyhoeddus ehangach.¹

Ein barn ni

Rydym yn cefnogi'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer.

Wrth osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, mae'n bwysig sicrhau bod systemau cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd. Gan hynny, rydym o'r farn y dylai'r ddyletswydd yn adran 8 fynd law yn llaw â gofyniad ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar y camau a gymerwyd i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer a/neu gynnydd tuag at gamau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni.

Argymhellion

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd ar y camau a gymerwyd i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer a chynnydd tuag at gamau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni. Byddem yn fodlon i'r adroddiad hwn fod yn rhan o'r adroddiad blynyddol ehangach ar gynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol (gweler Argymhelliad 15).

¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 184, 24 Mai 2023

Strategaeth ansawdd aer genedlaethol (Adrannau 9 i 11)

101. O dan adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ('Deddf 1995'), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol ('y strategaeth genedlaethol'). Rhaid adolygu'r strategaeth genedlaethol bob pum mlynedd, gyda'r adolygiad nesaf i'w gynnal ym mis Mai 2023 (a phob pum mlynedd wedi hynny).

102. Mae adran 9 yn diwygio adran 80 o Ddeddf 1995 i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddiben newid cyfnod adolygu'r strategaeth genedlaethol. Mae rheoliadau yn amodol ar gymeradwyaeth gan Senedd Cymru.

103. Mae adran 10 yn diwygio adran 80 o Ddeddf 1995 i ddatgymhwysu'r gofynion ymgynghori a chyhoeddi presennol o ran y strategaeth genedlaethol mewn perthynas â Chymru ac yn eu disodli â gofynion newydd. O dan y gofynion newydd, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol a'r cyhoedd wrth adolygu'r strategaeth genedlaethol.

104. Mae adran 11 yn diwygio adran 81 o Ddeddf 1995 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru roi sylw i'r polisiâu yn y strategaeth genedlaethol wrth arfer swyddogaethau a allai effeithio ar ansawdd aer.

105. Mae rhywun yn 'awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru' os yw wedi ei ddynodi felly gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Dim ond os yw'n bodloni'r diffiniad o 'awdurdod datganoledig yng Nghymru' yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi rhywun yn 'awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru', ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r unigolyn hwnnw ac unrhyw un arall priodol yn eu barn nhw.

106. Mae adran 11 hefyd yn diwygio adran 88 o Ddeddf 1995 i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru mewn perthynas â chyflawni unrhyw ddyletswydd a osodir arnynt yn rhinwedd adran 88 neu reoliadau a wnaed o dan Ran 4 o Ddeddf 1995. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus Cymru roi sylw i'r canllawiau hynny.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

107. Er bod cyfranwyr yn fodlon ar y cyfan â'r pŵer yn adran 9 i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu ar gyfer y strategaeth genedlaethol, mynegwyd pryder ynghylch y risg o newidiadau mympwyol a'r potensial am gyfnod adolygu

hir. Roedd consensws cyffredinol mai dim ond mewn 'amgylchiadau eithriadol' y dylid arfer y pwerau.

108. Roedd cyfranwyr yn fodlon ar y gofynion ymgynghori newydd a nodir yn adran 10. Fodd bynnag, argymhellodd Conffederasiwn GIG Cymru y dylid rhestru sefydliadau GIG eraill (er enghraifft, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru), Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Iechyd Cyhoeddus fel ymgynghoreion statudol.

109. Cyfeiriodd Cyfeillion y Ddaear at y ddyletswydd i roi sylw i'r strategaeth yn adran 11 fel un 'ddiangenrhaid o wan' a galwodd am ei chryfhau i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru yn arfer swyddogaethau perthnasol mewn modd sy'n gydnaws â pholisïau yn y strategaeth genedlaethol. Mynegwyd barn debyg gan Healthy Air Cymru ac eraill.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

110. Pan ofynnwyd a fyddai'r Gweinidog yn ymrwmo i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar y cynnydd tuag at weithredu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, dywedodd ei bod yn awyddus iawn i gael trefniadau adrodd yn eu lle sy'n rhoi gwybodaeth ystyrlon i bobl am lle'r ydym ni ac i ba gyfeiriad mae pethau'n mynd. Eglurodd y Gweinidog fod y trefniadau presennol ar gyfer adroddiadau cynnydd pum mlynedd, yn unol â'r cylch adolygu ar gyfer y strategaeth.

111. Dywedodd y Gweinidog mai pwrpas y ddyletswydd yn adran 11 yw sicrhau bod y strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn cael ei hystyried ar lefel gorfforaethol, fel bod swyddogaeth llunio polisïau'r awdurdod lleol yn ei chyfanrwydd yn ystyried y Ddeddf Aer Glân (fel y gobeithir y bydd erbyn hynny), ac nid adran iechyd yr amgylchedd yn unig, ac fel nad yw'n cael ei ystyried yn beth cul, arbenigol y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wneud, ond yn hytrach yn rhan o'i ddyletswydd eang i'r cyhoedd.

112. Pan ofynnwyd iddi sut bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd, dywedodd y Gweinidog y bydd y strategaeth genedlaethol yn cael ei hadolygu, yn amlwg, ynghyd â rhan yr awdurdodau lleol yn hynny, ac fel rhan o hynny gellir gweld a ydynt yn cydymffurfio ai peidio a chymryd camau priodol.

Ein barn ni

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd

aer genedlaethol. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd i adrodd i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth genedlaethol. Mae'r Gweinidog wedi nodi ei bod yn bwriadu adrodd ar gynnydd bob pum mlynedd, yn unol â'r cylch adolygu ar gyfer y strategaeth genedlaethol. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ofyniad statudol gan nad oes darpariaethau yn Neddf 1995 na'r Bil sy'n darparu'n benodol ar gyfer hyn. Ymhellach, rydym yn pryderu na fyddai adrodd bob pum mlynedd yn rhoi digon o gyfle i'r Senedd graffu'n effeithiol ar y cynnydd a wneir. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn cynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r strategaeth genedlaethol.

Er ein bod ni'n cydnabod y pryderon a godwyd gan gyfranwyr ynghylch adran 9 (Pŵer i newid cyfnod adolygu'r strategaeth) rydym yn fodlon bod defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn darparu mesurau diogelu digonol i sicrhau bod y pŵer yn cael ei arfer yn briodol.

Rydym yn fodlon ar adran 10 (Ymgynghori ar adolygu'r strategaeth). Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog ystyried ehangu'r rhestr o ymgynghoreion statudol, fel yr awgrymwyd yn y dystiolaeth i ni.

Nodwn y galwadau gan gyfranwyr i adran 11 (Dyletswydd i roi sylw i'r strategaeth) gael ei chryfhau. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod 'rhoi sylw i' yn derm cyfreithiol sy'n cael ei gydnabod yn eang ac sy'n ddealladwy. Mewn gwirionedd, bydd yn sicrhau y bydd yn rhaid i awdurdodau ystyried, cyfiawnhau a dangos sut maent wedi ystyried y strategaeth genedlaethol wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol. Credwn y bydd y canllawiau statudol cysylltiedig yn allweddol o ran cynorthwyo awdurdodau i gyflawni eu dyletswydd yn effeithiol. Disgwylwn i'r canllawiau gael eu datblygu drwy ymgynghori ag awdurdodau a rhanddeiliaid ehangach.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, wrth osod dyletswyddau statudol ar awdurdodau cyhoeddus mae'n bwysig sicrhau bod systemau cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd. Yn achos y ddyletswydd yn adran 11, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer hyn. Rydym yn nodi awgrym y Gweinidog y caiff cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ei hasesu fel rhan o'r adolygiad pum mlynedd o'r strategaeth genedlaethol. O ystyried na chrybwyllir hyn yn benodol ar wyneb y Bil, byddem yn croesawu esboniad manylach o sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

Yn olaf, rydym yn ymwybodol o'r cyfyngiadau capasiti ac adnoddau sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach. Rydym yn bryderus nad yw'r

Gweinidog wedi gallu darparu asesiad o gost cyflawni'r ddyletswydd i awdurdodau (fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol). Byddem yn croesawu sicrwydd gan y Gweinidog y bydd unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau sy'n deillio o'r ddyletswydd yn cael ei thalu drwy lefel briodol o gyllid.

Argymhellion

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru i roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru sy'n deillio o'r ddyletswydd i roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn cael ei diwallu drwy lefel briodol o gyllid.

Rheoliadau ansawdd aer (adran 12)

113. Mae adran 87 o Ddeddf 1995 yn nodi gofynion ymgynghori mewn perthynas â rheoliadau a wneir at ddiben Rhan 4 o'r Ddeddf honno. Mae adran 12 o'r Bil yn datgymhwyso'r gofynion hynny mewn perthynas â Chymru ac yn eu disodli gan ofynion newydd. Mae'r gofynion newydd hyn yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol, a'r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

114. Roedd y cyfranwyr yn fodlon ag adran 12. Fodd bynnag, argymhellodd Conffederasiwn GIG Cymru sefydliadau GIG eraill (er enghraifft, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru), Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w rhestru fel ymgynghoreion statudol.

Ein barn ni

Rydym yn fodlon ar adran 12. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Gweinidog ystyried ehangu'r rhestr o ymgylgoreion statudol, fel yr awgrymwyd yn y dystiolaeth a gawsom.

Argymhellion

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod sefydliadau eraill y GIG, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu rhestru fel ymgylgoreion statudol wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

Rheoli ansawdd aer yn lleol (adrannau 13 i 15)

115. O dan Ran IV o Ddeddf 1995, mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar lefel leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu ac asesu ansawdd yr aer 'o bryd i'w gilydd'. Lle canfyddir bod ansawdd aer mewn perygl o fynd y tu hwnt i amcanion llygryddion, mae ardal yn cael ei dynodi'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

116. Wrth ddynodi Ardal Rheoli Ansawdd Aer, rhaid i'r awdurdod lleol ddatblygu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer nodi'r camau arfaethedig y bydd yr awdurdod yn eu cymryd 'tuag at' gyflawni'r safonau ac amcanion ansawdd aer yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer, gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu.

117. Mae adrannau 13 i 14 yn diwygio adrannau 82 ac 83 o Ddeddf 1995, gyda'r nod o gryfhau'r broses rheoli ansawdd aer lleol bresennol drwy:

- ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad ansawdd aer blynyddol (adran 13)
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol anfon copi o Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Nid yw'r cynllun gweithredu'n dod i rym oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
- darparu ar gyfer Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer i nodi sut bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau i 'sicrhau' bod safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer, ac i bennu, mewn perthynas â phob safon ac amcan, ddyddiad

erbyn pryd bydd yr awdurdod lleol yn anelu at gyrraedd y safon neu'r amcan hwnnw (cyfeirir ato fel 'dyddiad cydymffurfio rhagamcanol');

- darparu i awdurdod lleol adolygu cynllun gweithredu ar unrhyw adeg, ond ei gwneud yn ofynnol iddo adolygu cynllun gweithredu os yw o'r farn bod angen mesurau pellach i gyflawni'r safonau a'r amcanion ansawdd aer a nodir yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer erbyn y dyddiad cydymffurfio a ragwelir, neu i gynnal y safonau a'r amcanion hynny. Nid yw'r adolygiadau yn dod i rym oni bai eu bod yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

118. Mae adran 15 yn diwygio adran 85 o Ddeddf 1995 drwy ehangu pwerau rhoi cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru i gynnwys achosion pan fo awdurdod lleol wedi methu â chyflawni mesur yn y cynllun gweithredu neu pan nad yw wedi cyrraedd safon neu amcan ansawdd aer erbyn y dyddiad penodedig.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

119. Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau mewn perthynas â rheoli ansawdd aer lleol a fydd, yn ôl cyfranwyr, yn helpu i fynd i'r afael â'r gwendidau presennol. Pwysleisiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru:

"...local air pollution monitoring processes and the Local Air Quality Management framework needs reform. [Public Health Wales] is keen to see this progress as quickly as possible and also to see the new process associated with more significant and robust action to address pollution than has been seen to date".

120. Dywedodd yr Athro Hayes wrth y Pwyllgor fod y broses rheoli ansawdd aer lleol yn effeithiol ac yn effeithlon o ran nodi a gwneud diagnosis o fannau problemus, ond nid yw'n effeithiol o ran eu datrys. Dywedodd ei bod yn hanfodol ceisio egluro a chryfhau deddfwriaeth Rheoli Ansawdd Aer Lleol i sicrhau bod y drefn yn gweithredu'n fwy effeithiol.

121. Er gwaethaf yr uchod, awgrymodd y cyfranwyr fod angen newidiadau pellach i sicrhau bod rheoli ansawdd aer lleol yn ataliol, yn rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar gyflawni'r ansawdd aer gorau i ddiogelu iechyd y cyhoedd, yn hytrach na 'rheoli manau problemus' a chanolbwyntio ar gydymffurfiaeth. Eglurodd yr Athro Hayes:

"The Local Air Quality Management process requires Action Plans (mitigation) where Air Quality Management Areas exists,

but these plans are not created if there is compliance with the current Air Quality Objectives. There appears to be a policy disconnect within the Bill in that there are no local/regional mechanisms to support a preventative approach.”

122. Awgrymodd y byddai gofyniad ar awdurdodau i ddatblygu strategaethau ansawdd aer lleol/rhanbarthol yn ffordd briodol o fynd i'r afael â hyn.

123. Wrth wneud sylwadau ar y gofyniad i Gynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer gynnwys dyddiadau cydymffurfio rhagamcanol, dywedodd Tom Price o Gyngor Abertawe bod angen derbyn bod yn rhaid cael hyblygrwydd ar ddyddiadau terfyn ar gyfer mesurau y tu allan i'w rheolaeth.

124. Pwysleisiodd sawl cyfrannwr fod angen sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gymorth ariannol i wella ansawdd aer. Soniodd cynrychiolwyr o lywodraeth leol am gyfyngiadau ar adnoddau a chapasiti, yn ogystal ag anawsterau wrth recriwtio staff ag arbenigedd addas.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

125. Eglurodd y Gweinidog fod awdurdodau lleol, yn unol â'r canllawiau statudol presennol, yn cyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol ar ansawdd aer. Ychwanegodd eu bod yn ffurfioli hynny yn y bôn fel ei bod hi'n amlwg iawn i'r awdurdodau lleol bod yn ofynnol iddynt adolygu ansawdd aer yn flynyddol. Dywedodd y Gweinidog na fyddai goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau i awdurdodau yn deillio o'r gofyniad adolygiad blynyddol oherwydd y gofyniad presennol iddynt wneud hynny'n flynyddol beth bynnag.

126. Wrth wneud sylwadau ar yr angen i gryfhau'r gofynion presennol mewn perthynas â Chynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer, dywedodd y Gweinidog:

“It’s a bit of a mishmash and it’s not as effective as it could be...We want a system that, where air quality standards are exceeded, there’s a swift action plan put in place to do something about it...We want this to be effective, and that the communities affected are aware that there’s a plan in place and what the timescale for dealing with the breach, if you like, is.”

127. Ychwanegodd:

“At the moment, local authorities are required to develop actions and give timescales for implementation. So, we’re

building on that process to require local authorities to provide a projected compliance date...we've got two authorities currently developing action plans to test the compliance date proposals, and then we'll get some feedback from that, as the Bill goes through, to make sure that it's a practical solution."

128. Eglurodd y Gweinidog fod Cronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol wedi cael ei sefydlu i helpu i dalu unrhyw gost ychwanegol sy'n codi o'r gofyniad i osod dyddiadau cydymffurfio rhagamcanol - er enghraifft, asesiadau modelu.

129. Dywedodd y Gweinidog, unwaith y cytunir ar ddyddiadau cydymffurfio rhagamcanol, y gellir sicrhau bod awdurdodau lleol wedi cael y cymorth sydd ei angen arnynt i allu cydymffurfio erbyn y dyddiad priodol.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r darpariaethau rheoli ansawdd aer lleol fel ffordd o egluro a chryfhau'r drefn rheoli ansawdd aer lleol bresennol, y clywsom nad yw mor effeithiol ag y dylai fod. Yn benodol, credwn y bydd y ffocws ar 'sicrhau' cydymffurfiaeth â safonau ac amcanion ansawdd aer (yn hytrach na 'mynd ar drywydd' cydymffurfiaeth) a chytuno ar ddyddiadau cydymffurfio rhagamcanol yn helpu i sicrhau bod awdurdodau'n rhoi digon o flaenoriaeth i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio.

Er gwaethaf yr uchod, rydym yn cydnabod, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, bod yn rhaid i awdurdodau gael digon o gapasiti ac adnoddau i gyflawni mesurau gwella ansawdd aer yn effeithiol. Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i awdurdodau drwy'r Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol, y dywedodd y Gweinidog wrthym y gellid ei ddefnyddio hefyd i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni gwelliannau ansawdd aer lleol. Gyda'r symudiad a ragwelir i safonau ac amcanion mwy llym, mae'n bosibl y bydd nifer yr ardaloedd rheoli ansawdd aer yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod. Disgwylwn i'r Gweinidog barhau i adolygu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol.

Rhaid i awdurdodau lleol ymdrechu i sicrhau bod lefelau llygredd aer mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ar draws eu hardal gyfan. Nid yw'r drefn rheoli ansawdd aer lleol bresennol wedi ei chynllunio ar gyfer hyn. Credwn fod gan strategaethau ansawdd aer lleol/rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni nod Llywodraeth Cymru o reoli ansawdd aer lleol sy'n ataliol, yn rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae'r strategaethau hyn yn ddewisol (o dan arweiniad Llywodraeth Cymru) ac nid

yw'n glir a oes rhai ar waith. Credwn y gellid defnyddio'r Bil fel cyfle i osod strategaethau lleol/rhanbarthol ar sail statudol. Byddai'r strategaethau hyn yn galluogi awdurdodau i ddangos yn glir sut maent yn cyflawni eu dyletswydd o dan adran 11. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon gwneud hyn, disgwyliwn i'r canllawiau rheoli ansawdd aer lleol presennol gael eu cryfhau er mwyn ei gwneud yn glir bod disgwyl i awdurdodau ddatblygu strategaethau lleol/rhanbarthol.

Argymhellion

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i barhau i adolygu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol sydd newydd ei sefydlu.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil:

- i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i wella ansawdd aer ar draws eu hardal; ac
- i alluogi dau neu ragor o awdurdodau cyfagos i baratoi strategaeth ar y cyd i gwrdd â'r ddyletswydd a amlinellir uchod.

Argymhelliad 21. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn Argymhelliad 20, dylai ymrwymo i gryfhau canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli ansawdd aer lleol i osod disgwyliad cryf i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ansawdd aer lleol/rhanbarthol.

Rheoli mwg (adrannau 16 i 18)

130. Mae Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 ('Deddf 1993') yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli ac atal llygredd aer drwy fwg ac allyriadau cysylltiedig eraill. Mae'n gwneud hyn yn rhannol drwy wneud darpariaeth ar gyfer dynodi Ardaloedd Rheoli Mwg. O fewn Ardaloedd Rheoli Mwg mae'n drosedd allyrru mwg o simnai adeilad (gan gynnwys eiddo domestig, preswyl neu ddiwydiannol) oni bai bod tanwydd wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio neu fod offer wedi ei eithrio i'w ddefnyddio mewn Ardal Rheoli Mwg.

131. Mae adran 16 o'r Bil yn disodli'r drosedd bresennol o ollwng mwg o simnai mewn Ardal Rheoli Mwg gyda chyfundrefn sancsiynau sifil. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar yr amddiffyniad statudol presennol.

132. Mae adran 17 yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i roi sylw i unrhyw ganllaw a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau awdurdodau o dan Ran 3 o Ddeddf 1993.

133. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â rheoli mwg i ganiatáu i'r gyfundrefn sancsiynau sifil sydd yn yr Atodlen fod yn gymwys o ran Cymru.

134. Roedd y Papur Gwyn ar gyfer y Bil yn cynnwys cynigion i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar reoli mwg drwy orfodi defnyddio Gorchmynion Rheoli Mwg mewn ardaloedd poblogaeth diffiniedig; ymestyn deddfwriaeth rheoli mwg i gynnwys llosgi yn yr awyr agored; a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu Ardaloedd Rheoli Mwg yn rheolaidd. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â'r rhain.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

135. Roedd cefnogaeth gyffredinol i ddisodli'r drosedd bresennol gyda chyfundrefn sancsiynau sifil er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau o ran gorfodi.

136. Dywedodd Tom Price o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn achos Cyngor Dinas Abertawe, nad chymerwyd camau o dan Ardal Rheoli Mwg ers peth amser. Cydnabu mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cael 'dull ar sail cyngor' o sicrhau cydymffurfiaeth cyn troi at gamau gorfodi. Fodd bynnag, awgrymodd y byddai gan y ddau oblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau. Adleisiodd cynrychiolwyr eraill llywodraeth leol hyn.

137. Rhybuddiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynrychiolwyr eraill o'r sector iechyd y gallai 'dull cosbol' o reoli mwg gynyddu'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac iechyd presennol. Roedd hyn yn seiliedig ar y farn y gallai'r argyfwng prisiau ynni presennol arwain pobl i chwilio am ffynonellau tanwydd eraill, rhatach ac y gallai llosgi domestig ddod yn fwy cyffredin. Fodd bynnag, awgrymodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd fod nifer y cartrefi sy'n dibynnu ar danwydd solet fel ffynhonnell ynni/gwresogi yn isel.

138. Galwodd llawer o gyfranwyr am gryfhau'r ddeddfwriaeth rheoli mwg ymhellach. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu Ardaloedd Rheoli Mwg a sut mae'n bwriadu gwneud hynny, gan nodi nad yw'r cynnig yn y Papur Gwyn i fandadu Gorchmynion Rheoli Mwg mewn ardaloedd poblogaeth diffiniedig wedi eu datblygu yn y Bil. Argymhellodd Healthy Air Cymru ac eraill gyflwyno cyfyngiadau rheoli mwg ar draws y wlad gyfan, gydag eithriadau i bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell iawn.

Mynegwyd safbwynt tebyg gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, a alwodd am reoleiddio llosgi tanwydd solet domestig mewn ardaloedd trefol sydd â dewisiadau gwresogi amgen ar y grid.

139. Ar yr un pryd â chyhoeddi'r Papur Gwyn ar y Bil, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i leihau allyriadau o losgi tanwydd solet at ddibenion domestig. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i gael gwared yn raddol ar werthu glo tŷ traddodiadol ar gyfer llosgi domestig, gwahardd gwerthu pren gwlyb ar gyfer llosgi domestig, a chyflwyno safonau i bob tanwydd solet mwynau a biomas a gynhrychir. Mynegodd llawer o gyfranwyr siom nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau i weithredu'r rhain.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

140. Disgrifiodd y Gweinidog y drefn sancsiynau troseddol bresennol mewn perthynas ag allyriadau mwg mewn Ardal Rheoli Mwg fel un 'lem'. Esboniodd:

“the prosecution process is burdensome, lengthy and expensive, and, frankly, very rarely used. The resources required by the local authority to bring a prosecution are really often not in the best interests of the local authority, because it just takes such an amount of time. The challenge of gathering evidence is also a deterrent.”

141. Dywedodd y Gweinidog y bydd y newid i gyfundrefn sancsiynau sifil yn hwyluso ymyrraeth gyflymach gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â mwg sy'n cael ei ollwng o fewn eu hardaloedd rheoli. Byddai Llywodraeth Cymru yn argymhell dull ar sail cyngor, a fyddai'n galluogi awdurdodau i fynd i'r afael â'r mater ar unwaith, darparu canllawiau i aelwydydd a busnesau ynghylch pam y byddent yn torri amodau pe baent yn parhau â'r arfer, a sut i fabwysiadu arferion llosgi gwell.

142. O ran mandadu Gorchmynion Rheoli Mwg mewn ardaloedd poblogaeth diffiniedig, dywedodd y Gweinidog fod gan Weinidogion Cymru bwerau ar hyn o bryd i roi cyfarwyddyd i awdurdodau greu Ardaloedd Rheoli Mwg. Ychwanegodd:

“Mewn egwyddor, byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw ardal drefol â phoblogaeth ddwys, lle mae llygredd aer yn cael ei achosi gan fwg, fesul achos. Bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw ardaloedd rheoli mwg yn cael eu sefydlu o dan adran 18. Dim

ond fel yr opsiwn olaf y byddai pwerau cyfarwyddo'n cael eu defnyddio."

143. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor yn dilyn hynny na fyddai gorfodi awdurdodau lleol i greu Ardaloedd Rheoli Mwg yn 'briodol' ac y buasai hi'n amharod i gryfhau dyletswydd Llywodraeth Cymru i ymyrryd yn yr hyn a fuasai'n benderfyniad lleol yn ei barn hi.

144. Esboniodd y Gweinidog fod y gofyniad i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau ar arfer eu swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf 1993 yn disodli'r cynnig gwreiddiol o 'ofyniad i adolygu', a chaiff ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid a'i adolygu a'i ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Ychwanegodd y bydd y canllawiau yn annog awdurdodau i ystyried ardaloedd rheoli mwg yn eu hagwedd gyffredinol at reoli ansawdd aer, gan gynnwys a ddylid creu ardaloedd rheoli mwg newydd os oes angen.

145. O ran llosgi yn yr awyr agored dywedodd y Gweinidog fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Papur Gwyn yn gymysg iawn, ac yn awgrymu bod angen llawer mwy o waith cyn deddfu. Ychwanegodd nad oedd pethau'n barod eto, ac na fyddai'r sylfaen dystiolaeth briodol ar gael i allu dweud beth yw'r peth iawn i'w wneud. Roedd y Llywodraeth yn sicr am ei gadw dan ystyriaeth weithredol ac mae'n gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid ar y camau nesaf posibl.

146. Dywedodd swyddog y Gweinidog y byddai ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y camau nesaf, yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.

Ein barn ni

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ymhellach ac yn gyflymach i leihau allyriadau mwg, yn enwedig o ganlyniad i losgi tanwydd solet yn y cartref. Er bod y Bil yn cynnwys rhai ychwanegiadau defnyddiol at y ddeddfwriaeth bresennol ar reoli mwg, byddem wedi disgwyl gweld mesurau cryfach i fynd i'r afael ag allyriadau, o ystyried maint y broblem.

Rydym yn fodlon ar y symudiad i gyfundrefn sancsiynau sifil ar gyfer troseddau rheoli mwg, sydd, yn ein barn ni, yn fwy cymesur na'r drefn sancsiynau troseddol bresennol. Rydym yn nodi honiad y Gweinidog y bydd cyfundrefn sancsiynau sifil yn galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd yn gyflymach pan gyflawnir trosedd. Er y gallai hyn fod yn wir, rydym yn cydnabod y bydd gallu awdurdodau i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â Gorchmynion Rheoli Mwg yn dibynnu i raddau helaeth ar gapasiti ac adnoddau.

O ystyried maint problem llygredd aer drwy allyriadau mwg, nid yw'n glir pam mae cyn lleied o Ardaloedd Rheoli Mwg yng Nghymru. Rydym yn pryderu y gallai fod amharodrydd ymhlith awdurdodau i ddatgan Ardaloedd Rheoli Mwg, naill ai oherwydd cyfyngiadau capasiti ac adnoddau, neu am ryw reswm arall.

Mae'r pŵer i awdurdodau ddatgan Ardaloedd Rheoli Mwg wedi ei gynnwys yn adran 18 o Ddeddf Aer Glân 1993. Rydym yn pryderu nad yw'r adran hon yn glir o ran yr amgylchiadau lle dylai awdurdod ddatgan Ardal Rheoli Mwg, a allai atal awdurdodau rhag arfer y pŵer hwn. Credwn fod y Bil yn gyfle i fynd i'r afael â hyn drwy ddiwygio adran 18 o Ddeddf 1993 i amlinellu'r amgylchiadau lle dylai awdurdod ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon ymrwymo i hyn, rydym yn disgwyl iddi amlinellu'r amgylchiadau mewn canllawiau a gyhoeddir o dan y Bil (gweler isod).

Er bod adran 17 o'r Bil (Canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau y gall Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi, sylwn nad oes gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfryw ganllawiau, ac nad oes unrhyw ofyniad yn bodoli'n barod yn Rhan III o Ddeddf 1993. Er bod y Gweinidog wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau, ni fyddai unrhyw rwymedigaeth ar Weinidog yn y dyfodol mewn Llywodraeth wahanol i Gymru i anrhydeddu'r ymrwymiad hwnnw. Er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau ar arfer eu swyddogaethau o dan Ran III o Ddeddf 1993.

Roedd y Papur Gwyn ar gyfer y Bil a'r ymgynghoriad ar leihau allyriadau o losgi domestig yn cynnwys cynnig i fandadu gweithredu Gorchmynion Rheoli Mwg. Er gwaethaf cefnogaeth i'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn. Rydym yn pryderu am ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn, ac mae tystiolaeth y Gweinidog i ni yn dweud pethau gwahanol ynghylch pam na fwriwyd ymlaen â'r cynnig. Nid yw'r anghysondeb hwn mewn negeseuon yn ddefnyddiol.

Rydym yn cydnabod barn cyfranwyr y gallai'r ddarpariaeth rheoli mwg gael ei hymestyn heb effeithio'n andwyol ar aelwydydd sy'n dibynnu ar danwydd solet i goginio a gwresogi. Credwn y dylai'r Gweinidog fyfyrion ar y dystiolaeth hon cyn Cyfnod 2.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfres o fesurau i lleihau allyriadau o losgi domestig y tu allan i ddeddfwriaeth rheoli mwg. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y cynnydd hyd yma wedi bod yn araf a bod

Llywodraeth Cymru ar ei hôl hi o ran yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r mesurau hyn (a nodir yn ei Chynllun Aer Glân).

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ymateb i'w hymgyngoriad ar losgi domestig yn fuan. Byddai wedi bod yn fuddiol cyhoeddi ymateb i gyd-fynd â chyflwyno'r Bil, gan roi mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch cynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru i leihau'r llygredd aer a gynhyrchir gan losgi domestig. Disgwyliwn i'r ymateb gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno rheoliadau.

Mae'r dystiolaeth a gawsom gan y Gweinidog yn awgrymu y gellid cyflwyno'r mesurau yr ymgynghorwyd arnynt gan ddefnyddio pwerau presennol i wneud rheoliadau. Rydym yn ceisio sicrwydd pellach ar y mater hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod adran 18 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn amlinellu'r amgylchiadau pan ddylai awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon gwneud hyn, dylai ymrwymo i roi sylw i'r mater hwn mewn canllawiau statudol (gweler Argymhelliad 23).

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau o dan Ran III o Ddeddf Aer Glân 1993. Dylai'r canllawiau amlinellu'r amgylchiadau lle byddai disgwyl i awdurdod lleol ddatgan Ardaloedd Rheoli Mwg, ymhlith pethau eraill.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog nodi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Dylai'r canllawiau a roddir i awdurdodau (gweler Argymhelliad 22) egluro'r meini prawf hyn.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog ystyried a ellid a sut gellid ehangu'r ddarpariaeth rheoli mwg ledled Cymru heb effeithio'n andwyol ar aelwydydd sy'n dibynnu ar danwydd solet i goginio a gwresogi.

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog egluro pa fesurau a nodir yn yr ymgynghoriad ar leihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig y gellid eu dwyn ymlaen gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol a pha rai y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach arnynt.

Argymhelliad 27. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgyngoriad ar lleihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig, gan gynnwys y camau nesaf. Dylai'r ymateb gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n addas o uchelgeisiol.

Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd (Adrannau 19 i 20)

147. O dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 ('Deddf 2000'), mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ('cynlluniau codi tâl'):

- lle mae'r ffordd yn cael ei chario gan bont, neu'n mynd drwy dwunnel, o leiaf 600 metr o hyd; neu
- pan fo awdurdod traffig lleol wedi gofyn i Weinidogion Cymru wneud y cynllun codi tâl mewn cysylltiad â chynllun codi tâl a gynigir ganddo.

148. Dim ond at ddiben hwyluso'r gwaith o gyflawni polisiau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol y gellir defnyddio enillion net o gynlluniau codi tâl.

149. Mae Adran 19 o'r Bil yn ymestyn pŵer Gweinidogion Cymru i'w galluogi i wneud cynlluniau codi tâl at ddibenion lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Mae adran 20 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwyso enillion cynlluniau codi tâl o'r fath. Mae Atodlen 2 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad yn nodi sut byddai enillion net yn cael eu gwario a'r effaith ddisgwyliedig ar ansawdd aer. Fodd bynnag, nid yw'n gosod cyfyngiadau o gwbl ar sut gellir defnyddio enillion net o gynlluniau codi tâl a wneir at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

150. Wrth greu cynllun codi tâl, nid oes gofynion yn y ddeddfwriaeth bresennol ar Weinidogion Cymru, nac awdurdodau lleol yng Nghymru, i ymgynghori ymlaen llaw. Nid yw'r Bil yn newid y safbwynt hwn, ac mae'n parhau i fod yn wir nad oes gofyniad penodol bod yn rhaid cynnal ymgynghoriad cyn creu cynllun codi tâl.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

151. Mynegodd Haf Elgar o Gyfeillion y Ddaear Cymru gefnogaeth i'r pwerau ynghylch cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ond dywedodd fod y Gweinidog wedi nodi nad oedd ganddi unrhyw fwriad i'w defnyddio ar hyn o bryd. Mynegodd Joshua James o Living Streets hefyd gefnogaeth i godi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd fel arf pwysig, ac roedd o'r farn bod y darpariaethau hyn yn rhan hanfodol o'r ddeddfwriaeth.

152. Fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar y Bil, cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu barn pobl ledled Cymru.² O'r 2,239 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd 92% yn anghytuno y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau ehangach i gyflwyno cynlluniau codi tâl i fynd i'r afael â llygredd aer o gwmpas cefnffyrdd.

153. Credai Chris Ashley, ar ran y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd, y dylid rhoi'r gorau i'r cynigion. Yn lle hynny, awgrymodd fuddsoddi arian cyhoeddus mewn safonau cerbydau ac ymchwil a datblygu i leihau lefelau llygredd.

154. Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Pwysleisiodd yr Athro Enda Hayes bwysigrwydd ystyried dadleuon tegwch cymdeithasol wrth ddylunio cynlluniau codi tâl. Tynnodd sylw at y ffaith mai unigolion sydd dan gyfyngiadau ariannol fyddai'n cael y drafferth mwyaf i addasu i'r ymyriad.

155. Tynnodd Joseph Carter sylw at y risg y byddai cerbydau'n dargyfeirio o gefnffyrdd i ffyrdd lleol mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd, a thrwy hynny'n gwaethygu anghydraddoldebau iechyd. Pwysleisiodd fod angen gweithredu unrhyw gynllun o'r fath yn ofalus. Awgrymodd Ian Jones, o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gynnwys awdurdodau lleol yn y broses ymgynghori i sicrhau nad yw problemau'n cael eu symud o un ardal i'r llall.

156. Codwyd cwestiynau ynghylch y defnydd mwyaf priodol o'r arian a gynhychir o gynlluniau codi tâl. Cynigiodd yr Athro Gwyneth Davies, o Goleg Brenhinol y Ffisigwyr, ddefnyddio'r refeniw i gefnogi mentrau amgylcheddol ac iechyd. Gallai gwybod y byddai'r cynllun o fudd uniongyrchol i'w cymunedau wneud cynlluniau o'r fath yn fwy derbyniol i bobl. Amlygodd Dr. Sarah Jones, o Iechyd Cyhoeddus Cymru, bwysigrwydd buddsoddi'r elw mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cytunodd Joseph Carter a mynegodd bryderon ynghylch y risg y byddai'r arian yn cael ei ddargyfeirio i feysydd polisi eraill. Pwysleisiodd bwysigrwydd buddsoddi mewn monitro ansawdd aer a chanolbwyntio ar deithio cyhoeddus a llesol. Roedd Matthew Vaux o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Joshua James ill dau yn eiriol dros glustnodi'r arian yn benodol ar gyfer hyrwyddo teithio llesol.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

157. Pan ofynnwyd iddi pam mae angen pwerau i gyflwyno cynlluniau codi tâl at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer, yn enwedig o ystyried nad oes gan

² Roedd yr arolwg ar gael yn agored ar-lein yn hytrach na bod yn seiliedig ar sampl cynrychioliadol o'r cyhoedd.

Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gyflwyno cynlluniau o'r fath, dywedodd y Gweinidog:

"I know it does seem counterintuitive...But it's because we want to futureproof this Bill; we don't want to have to come back with more primary legislation in circumstances where, actually, we haven't been successful in reducing airborne pollutants as a result of vehicle emissions by the other measures that we're taking forward."

158. Wrth wneud sylwadau ar yr amgylchiadau pan fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno cynllun codi tâl, esboniodd y Gweinidog:

"we've got a plan to tackle roadside nitrogen dioxide concentrations in our precautionary retained measures for the A470 from Pontypridd to Upper Boat, and on the M4 at Newport, junctions 25 to 26, at the moment. They're considered for introduction if our preferred measure of reduced 50 mph speed limit isn't effective. If we have to introduce charging mechanisms in order to make them effective, then we would certainly consider doing so, but I'd much prefer to do it with compliance measures like reduced traffic speed and so on."

159. Nid yw'r Bil yn cynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn cyflwyno cynllun codi tâl. Pan ofynnwyd iddi hi egluro hyn, dywedodd y Gweinidog y byddai eisoes yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Ychwanegodd:

"...specific consultation requirements are sometimes included in primary legislation where there are very specific groups that the primary legislation in question wishes to ensure are consulted...we don't think, in this instance, that there are very specific people who would need to be consulted, because the general consultation duty will pick up all of the elements of the public and the local authorities, and so on, who are the people who would need to be consulted for a trunk road scheme."

160. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod hi wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar unrhyw gynig yn y dyfodol i ddefnyddio'r pwerau newydd.

161. Pan ofynnwyd iddi pam roedd y Gweinidog wedi dewis peidio â chyfyngu ar y defnydd o enillion net o gynlluniau codi tâl i gyllido polisïau sy'n anelu at wella ansawdd aer, dywedodd:

"...we expect any revenues from a road charging scheme to be used, in the broadest sense, to improve air quality. The difficulty with hypothecation is that it tends to be very narrow, and there's every possibility that there would be something that we wanted to do that then wouldn't fit within the hypothecation."

Ein barn ni

Heb os, mae codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yn fater dadleuol i'r cyhoedd. Gwelsom o ganlyniadau ein harolwg fod y pwnc yn peri llawer o bryder. Fodd bynnag, lle caiff ei ategu gan ddata, rydym yn cytuno â'r Gweinidog a llawer o'n rhanddeiliaid fod ymyriadau o'r fath yn arf pwysig i leihau llygredd aer a sŵn.

Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud nad oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu cynnwys fel y gellir eu defnyddio, yn y dyfodol, os bydd ymyriadau eraill wedi methu. Serch hynny, mae gennym sawl pryder ynghylch cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.

Nodwyd canlyniadau anfwriadol posibl cynlluniau o'r fath gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys mwy o draffig ar ffyrdd preswyl os codir tâl. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus effeithiau posibl unrhyw gynllun, gan ystyried data gwyddonol a barn y cyhoedd yr effeithir arnynt. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o degwch cymdeithasol i sicrhau nad yw rhai grwpiau yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a roddodd y Gweinidog i'r Pwyllgor hwn y bydd unrhyw gynnig yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cynnwys dyletswydd benodol i ymgynghori ar wyneb y Bil. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn atgyfnerthu'r angen i ymgysylltu'n adeiladol â chymunedau lleol y gallai'r cynigion effeithio arnynt. Byddai rhoi dyletswydd i ymgynghori ar wyneb y Bil yn rhoi neges gref a chlir i'r cyhoedd am fwriad Llywodraeth Cymru i'w cynnwys mewn penderfyniadau ar unrhyw gynllun codi tâl yn y dyfodol.

Rhoddodd cyfranwyr neges glir iawn i ni y dylai refeniw a gynhyrchir o unrhyw gynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yn y dyfodol gael ei neilltuo a'i gyfeirio at fuddsoddiadau mewn gwella ansawdd aer, yn enwedig teithio llesol a

seilwaith trafniadaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn annog newid moddol a fydd yn arwain yn uniongyrchol at welliannau mewn ansawdd aer. Rydym yn nodi dadleuon y Gweinidog yn erbyn neilltuo, ond rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil.

Argymhellion

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Rhaid i ymgynghoreion gynnwys y rhai y mae'r cynllun codi tâl arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y cyhoedd a busnesau.

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yr enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yn cael eu defnyddio at ddiben hwyluso'r broses o gyflawni polisiâu sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys teithio llesol.

Trosedd segura llonydd (Adran 21)

162. Mae adran 21 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi amrediad ariannol ar gyfer pennu swm y gosb am drosedd segura llonydd.

163. Mae adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ('Deddf 1995') eisoes yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau amrywiol mewn rheoliadau at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf honno, sy'n ymwneud ag ansawdd aer. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi talu cosb benodedig pan fydd trosedd wedi ei chyflawni. Mae Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) 2003 eisoes yn galluogi swyddog gorfodi awdurdod lleol i fynnu bod gyrwyr yn diffodd injans cerbydau pan fyddant wedi parcio ac i gyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig i'r rhai sy'n gwrthod gwneud hynny. Ar hyn o bryd, £20 yw'r gosb, gan gynyddu i £40 os nad yw'n cael ei thalu o fewn cyfnod penodol.

164. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol nad yw lefel bresennol y ddirwy yn ddigon i atal pobl rhag troseddu,

“Nid yw'r gosb benodedig bresennol o £20 ychwaith yn ei gwneud yn ariannol ymarferol i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi. Cydnabyddir bod rhaid i ddirwyon fod yn gymesur. Er hynny, mae'r gosb benodedig o £20 am segura llonydd yn isel iawn.”

165. Mewn perthynas â lefel newydd y ddirwy, eir ymlaen i ddweud:

“Y safbwynt ar hyn o bryd yw y gellid pennu'r ystod ar swm o ddim llai na £40 a dim mwy na £80. Bydd y Rheoliadau hynny yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, a chynhelir gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol cyn yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, i brofi'r symiau dangosol hyn.”

Tystiolaeth gan gyfranwyr

166. Roedd y cyfranwyr yn cefnogi'r cynigion yn y Bil mewn egwyddor.

167. Fe wnaeth Tom Price o Gyngor Abertawe gydnabod bod grym ar gael i fynd i'r afael â throseddau segura llonydd, ond cyfaddefodd nad oes llawer o orfodi wedi bod hyd yma. Cyfeiriodd at ymdrechion yn Abertawe i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd i hyrwyddo manteision diffodd injans cerbydau ger ysgolion. Pwysleisiodd Steven Manning o Gyngor Dinas Casnewydd bwysigrwydd targedu ysgolion fel man cychwyn ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar ymddygiad, gan ystyried y gynulleidfa gaeth a dylanwad plant.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

168. Wrth egluro pam mae angen y pŵer i ragnodi amrediad ariannol yn hytrach na chynyddu'r gosb bresennol, dywedodd y Gweinidog:

“putting a monetary range in regulations will facilitate that enforcement and, again, the point about putting it in the regulations is to make sure that, as we're currently living through an age of rampant inflation, for goodness' sake, if I put it on the face of the Bill and it's £50, £50 might not be worth very much at all in two years' time. So, making sure that the regulations are fit for purpose and that the range can be reconsidered regularly will be an important part of this.”

169. Pan ofynnwyd iddi pwy fyddai'n gyfrifol am orfodi, dywedodd y Gweinidog:

“the regulations will allow the local authorities to authorise whoever they see fit to take this action. And that might well be the parking enforcement officers, it might be environmental health, it could be anybody that they think is appropriate for that local authority; we're not restricting it. The local authority will have the power to authorise an officer of the local authority to take action, whoever is the appropriate person.”

170. Gan gyfeirio at effaith y darpariaethau, cydnabu'r Gweinidog:

“we're not anticipating huge numbers of people having to be fined; we're anticipating an awareness campaign of the fact that the fine could be there, and then an education piece. And just to say, we can't say what the range is at the moment, Chair, because we're going to consult on the regulations.”

171. O ran yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, dywedodd y Gweinidog:

“we can't do anything by just enforcement. We need to make it socially unacceptable to do this, and that's what works more than anything else—so, making sure that children understand that, if their parents have left their engine running, they're actually actively affecting the air quality around a school.”

Ein barn ni

Rydym yn cefnogi cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil mewn egwyddor.

Rydym yn nodi'r pwyntiau a wnaed gan y Gweinidog nad yw lefel bresennol y dirwyon yn gost-ffeithiol i awdurdodau lleol geisio eu gorfodi. Rydym hefyd yn nodi ei sylwadau nad oes disgwyl i'r mesurau hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn dirwyon ac y bydd rhaglen codi ymwybyddiaeth yn cyd-fynd â nhw.

Fodd bynnag, mae'n amheus pa mor effeithiol fydd y dirwyon uwch fel dull atal os nad oes digon o adnoddau ar gyfer gorfodi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn ei Memorandwm Esboniadol nad oes ganddi unrhyw syniad a fydd y mesurau yn newid arferion mewn unrhyw awdurdod lleol. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog y bydd lefel y dirwyon yn destun ymgynghoriad. Credwn fod hwnnw'n ddull priodol.

Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus ynghylch effeithiau niweidiol segura. Mae ymdrechion yn Abertawe i godi ymwybyddiaeth, yn enwedig mewn lleoliadau ysgolion, yn dangos y potensial ar gyfer hyrwyddo manteision diffodd injans cerbydau ger ysgolion. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau pellach i sicrhau bod yr arferion hyn yn cael eu mabwysiadu'n gyson ac yn eang.

Argymhellion

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau i roi lefelau newydd o ddirwyon ar waith, gan gynnwys pryd mae ymgynghoriad i fod i gael ei gynnal.

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd gynhwysfawr i addysgu'r cyhoedd am effeithiau niweidiol segura.

5. Rhan 2 – Seinweddau

Strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau (adrannau 22 a 23)

172. Esbonnir yn y Memorandwm Esboniadol bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r blaen i "greu a cheisio datblygu unrhyw gyfleoedd i gysoni polisiau a rheoliadau sŵn/seinwedd a pholisiau a rheoliadau ansawdd aer yng Nghymru".

173. Bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth seinwedd genedlaethol, y mae'n rhaid ei hadolygu bob pum mlynedd. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill (a ddynodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau), 'roi sylw' i'r strategaeth genedlaethol ar seinweddau. Cyn dynodi 'awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru', byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod hwnnw ac eraill yr ystyrir ei bod yn briodol eu cynnwys.

174. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod pan mae'n rhaid iddynt adolygu'r strategaeth. Byddai angen i'r rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

175. Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol i gynnwys seinweddau yn y Bil ar y cyfan, gyda sawl un yn cydnabod ei gysylltiad cynhenid â llygredd aer.

176. Canmolodd Peter Rogers, o'r Sefydliad Acwsteg, natur arloesol y ddeddfwriaeth tra'n nodi'r sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n ei hategu. Roedd Colin Cobbing, a oedd yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, yn gwerthfawrogi aliniad polisi sŵn a seinwedd ag ansawdd aer, gan ei ystyried yn gam sylweddol. Fodd bynnag, mynegodd anhawster gyda'r derminoleg a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd.

177. Cydnabu Peter Rogers absenoldeb diffiniad clir o seinweddau yn y ddeddfwriaeth ond tynnodd sylw at y ffaith ei bod yn bosibl na fyddai angen diffiniad unigol ar hyn o bryd, gan ystyried y potensial ar gyfer datblygu dealltwriaeth. Awgrymodd y gallai'r Memorandwm Esboniadol fod yn lle addas i fynd i'r afael â'r diffiniad, gan ganiatáu hyblygrwydd wrth i'r cysyniad ddatblygu. Ategwyd hyn gan Stephen Turner, o'r Sefydliad Acwsteg, a drafododd yr heriau sy'n gysylltiedig â diffinio seinweddau ac a gynigiodd osgoi diffiniad penodol yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu ar gyfer addasu dros amser.

178. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid sefydlu corff cynghori, fel y Panel Cynghori ar Aer Glân, i gynghori Llywodraeth Cymru ar bolisi seinweddau. Roedd Joseph Carter o'r farn y byddai panel arbenigol yn cynnwys rhwydweithiau gwyddonol, elusennau, a cholegau brenhinol sy'n gweithio yn y maes yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr. Cefnogodd Stephen Turner y syniad hefyd ac awgrymodd y byddai panel cynghori yn gwella proffil seinweddau wrth lunio polisiau.

179. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r darpariaethau sy'n ymwneud â chynhyrchu strategaeth seinweddau. Trafododd Peter Rogers y gwahaniaeth rhwng llygredd sŵn a seinweddau, gan bwysleisio'r angen i ystyried effaith gadarnhaol sain a phwysigrwydd cyd-destun, lle a lleoliad. Ategwyd hyn gan Colin Cobbing. Mynegodd Stephen Turner ei gefnogaeth i strategaeth ar wahân ar seinweddau. Roedd o'r farn y byddai cael strategaeth benodol ar gyfer seinweddau yn cael effaith fwy sylweddol, gan fod sŵn yn aml yn cael ei ddiystyru fel llygrydd.

180. Credai Rosie Pitt o'r Sefydliad Acwsteg y byddai amserlen pum mlynedd ar gyfer adolygu'r strategaeth seinweddau yn briodol. Cydnabu ei bod yn debygol y byddai'r maes polisi yn destun newidiadau sylweddol, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cyntaf gweithredu.

181. Roedd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd o'r farn y dylid ei ystyried yn rhanddeiliad allweddol yn y broses o baratoi ac adolygu'r Strategaeth Seinweddau Genedlaethol gan ei fod yn fater iechyd y cyhoedd a fydd yn gofyn am arbenigedd a gwaith gorfodi a monitro swyddogion iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol.

182. Pwysleisiodd Colin Cobbing fod cwmpas polisiau seinweddau yn ymestyn y tu hwnt i awdurdodau lleol, gan effeithio ar sectorau lluosog a chyrrff cyfrifol yn dibynnu ar y ffynhonnell sŵn. Tynnodd sylw at yr angen am amcanion clir a dadansoddiad cost a budd i roi effaith i'r strategaeth a phwysleisiodd bwysigrwydd dyrannu adnoddau'n briodol ar gyfer gweithredu ymyriadau yn unol ag amcanion y strategaeth.

183. Nododd Rosie Pitt, ar sail ei phrofiad o weithio gydag adrannau iechyd yr amgylchedd mewn cynghorau ledled Cymru, fylchau gwybodaeth presennol ymhlith cynghorau ynghylch sŵn. Pwysleisiodd yr angen am eglurder ar weithrediad ac ystyriaeth o effeithiau cost ar adrannau awdurdodau lleol.

184. Rhannodd Peter Rogers ei brofiad uniongyrchol diweddar o siarad ag awdurdodau lleol am seinweddau. Nododd eu pryderon ynghylch argaeledd adnoddau a'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â pholisiau seinwedd.

Pwysleisiodd bwysigrwydd darparu hyfforddiant a chymorth i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a sicrhau gweithrediad effeithiol.

185. Teimlai Healthy Air Cymru nad yw'r gofyniad i 'roi sylw' i'r strategaeth yn mynd yn ddigon pell. Awgrymodd y byddai dyletswydd i 'roi sylw *dyledus*' i'r strategaeth yn cryfhau'r Bil. Cytunodd y Sefydliad Acwsteg â'r farn hon.

Adran 22(2)

186. Roedd y Sefydliad Acwsteg yn bryderus ynghylch y geiriad yn adran 22(2) o'r Bil, sy'n nodi bod yn rhaid i'r strategaeth seinweddau gynnwys polisiau ar gyfer asesu a lleihau lefelau llygredd sŵn. Teimlai y gallai cyfeiriad at 'leihau' lefelau llygredd sŵn ar wyneb y Bil arwain at ganlyniadau anfwriadol. Dywedodd:

"...it's important with managing noise that you take proper account of the social and economic benefits of the noisemaking activity as well as assessing the noise pollution..."

187. Awgrymodd yn lle hynny y dylai'r Bil nodi bod yn rhaid i'r strategaeth seinweddau gynnwys polisiau ar gyfer rheoli llygredd sŵn yn effeithiol.

188. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch cynnwys targedau yn y strategaeth, mynegodd Stephen Turner gefnogaeth i ymgorffori targedau heb o reidrwydd eu cynnwys ar wyneb y Bil. Awgrymodd ddefnyddio data mapio sŵn i bennu nifer y bobl sy'n agored i lefelau sŵn penodol, yn ogystal ag ystyried yr effeithiau uniongyrchol ar iechyd a chostau cysylltiedig effeithiau sŵn.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

189. Mewn perthynas â chynnwys diffiniad o seinweddau, dywedodd y Gweinidog y byddai'r diffiniad safonol rhyngwladol o seinweddau'n cael ei gynnwys yn y Strategaeth seinweddau Genedlaethol. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ddiweddarau'r diffiniad yn ôl yr angen.

190. Ar fater sefydlu panel cynghori ar seinweddau, dywedodd y Gweinidog yn ei llythyr:

"Rydym yn fodlon ystyried unrhyw achos a wneir dros sefydlu panel cynghori mwy ffurfiol ar seinweddau...[ond] Byddai angen hefyd ein hargyhoeddi y byddai'r gwerth mae'n ei ychwanegu at y trefniadau presennol yn fwy na'r costau gweinyddol."

191. Ar 26 Mehefin 2023, lansiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ymgynghoriad ar strategaeth seinweddau genedlaethol ddrafft, fel sy'n ofynnol dan Adran 22 o'r Bil hwn.

Ein barn ni

Ynghyd â rhanddeiliaid, yn gyffredinol, rydym yn croesawu cynnwys seinweddau yn y Bil. Gallai hwn fod yn faes polisi cyffrous a allai gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd llawer o ddinasyddion Cymru. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod hwn yn faes polisi nad yw wedi ei ddatblygu'n ddigonol hyd yn hyn, ac mae angen egluro llawer o faterion ymhellach.

Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch absenoldeb diffiniad clir o seinweddau yn y ddeddfwriaeth. Rydym yn cytuno ei bod yn synhwyrol darparu hyblygrwydd, o ystyried natur esblygol y maes polisi hwn. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i'r Pwyllgor hwn y bydd diffiniad yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Seinweddau.

Roeddem braidd yn bryderus o glywed am ddiffyg arbenigedd ac adnoddau posibl ymhlith awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus. Clywsom alwadau am hyfforddiant ac adnoddau i roi polisiâu ar waith yn effeithiol yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut caiff hyn ei gyflawni. Gall panel cyngori gyfrannu at fynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth hwn. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer creu panel arbenigol sy'n cynnwys rhwydweithiau gwyddonol, elusennau, a cholegau brenhinol sy'n gweithio yn y maes.

Rydym yn cytuno y dylai rhanddeiliaid allweddol fod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Seinweddau Genedlaethol. Nodwn fod y Gweinidog wedi cyhoeddi Strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad ar 26 Mehefin 2023. Ni nododd yr un o'r rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth eu bod yn ymwybodol o'i ddatblygiad ac ni fu'r un ohonynt yn ymwneud â'r broses. Rhaid i'r Gweinidog egluro i ba raddau y cafodd rhanddeiliaid allanol ac arbenigwyr eu cynnwys yn y gwaith hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 32. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys diffiniad o seinweddau ar wyneb y Bil neu, fel arall, yn y Memorandwm Esboniadol.

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru greu panel cyngori arbenigol sy'n cynnwys rhwydweithiau gwyddonol, elusennau, a cholegau brenhinol sy'n gweithio ym maes seinweddau.

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa adnoddau ychwanegol y bydd yn eu darparu i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn gwybodaeth a gwella eu gallu i roi polisïau seinweddau ar waith yn effeithiol.

Argymhelliad 35. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Seinweddau. Dylai'r Gweinidog egluro i ba raddau roedd rhanddeiliaid allweddol yn ymwneud â'r Strategaeth ddrafft, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 26 Mehefin 2023.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen [we'r Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a sefydliad
29 Mawrth 2023	<p>Julie James AS - y Gweinidog Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru</p> <p>Olwen Spiller, Llywodraeth Cymru</p> <p>Roger Herbert, Llywodraeth Cymru</p> <p>Helen Rowley, Llywodraeth Cymru</p>
4 Mai 2023 Panel 1	<p>Dr Victoria Jenkins, Prifysgol Abertawe</p> <p>Yr Athro Enda Hayes, Prifysgol Gorllewin Lloegr</p>
4 Mai 2023 Panel 2	<p>Joseph Carter, Asthma and Lung UK</p> <p>Yr Athro Gwyneth Davies, Coleg Brenhinol y Meddygon</p> <p>Dr Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>
4 Mai 2023 Panel 3	<p>Y Cyngorydd Matthew Vaux, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)</p> <p>Ian Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac ar ran Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru</p> <p>Steve Manning, Cyngor Dinas Casnewydd</p> <p>Tom Price, Cyngor Abertawe</p>
11 Mai 2023 Panel 1	<p>Chris Ashley, Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd</p>

Dyddiad	Enw a sefydliad
	<p>Christine Boston, Sustrans Cymru</p> <p>Josua James, Living Streets</p>
<p>11 Mai 2023 Panel 2</p>	<p>Stephen Turner, Y Sefydliad Acwsteg</p> <p>Peter Rogers, Y Sefydliad Acwsteg</p> <p>Rosie Pitt, Cangen Cymru'r Sefydliad Acwsteg</p>
<p>17 Mai 2023 Panel 1</p>	<p>Haf Elgar, Cyfeillion y Ddaear Cymru</p> <p>Jenny Hawley, Plantlife, yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru</p> <p>Nadia De Longhi, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Eirian MacDonald, Cyfoeth Naturiol Cymru</p>
<p>17 Mai 2023 Panel 2</p>	<p>Kristian James, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd</p> <p>Colin Cobbing, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd</p>

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
AQS 01	Awyr Iach Cymru (Saesneg yn unig)
AQS 02	Asthma and Lung UK (Saesneg yn unig)
AQS 03	Iechyd Cyhoeddus Cymru
AQS 04	Yr Athro Enda Hayes (Saesneg yn unig)
AQS 05	Coleg Brenhinol y Meddygon (Saesneg yn unig)
AQS 06	Cyngor Dinas Casnewydd (Saesneg yn unig)
AQS 07	Dr Victoria Jenkins, Athro Cysylltiol (Saesneg yn unig)
AQS 08	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (Saesneg yn unig)
AQS 09	Y Sefydliad Acwsteg (IOA) (Saesneg yn unig)
AQS 10	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Saesneg yn unig)
AQS 11	Cymdeithas Feddygol Prydain (Saesneg yn unig)
AQS 12	Confederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
AQS 13	Cyswllt Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig)
AQS 14	Living Streets (Saesneg yn unig)
AQS 15	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 16	Abergavenny Bio-char (Saesneg yn unig)
AQS 17	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 18	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 19	Grŵp Acwsteg y Sefydliad Cynllunio Amgylcheddol a Pheirianeg yng Ngholeg Prifysgol Llundain (Saesneg yn unig)
AQS 20	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 21	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Saesneg yn unig)

Cyfeirnod	Sefydliad
AQS 22	Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru Wales (Saesneg yn unig)
AQS 23	Cymdeithas Cerbydau Trydan Cymru (EVA Cymru) (Saesneg yn unig)
AQS 24	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 25	Cymdeithas Lleihau Sŵn (Saesneg yn unig)
AQS 26	My World My Home, Coleg y Cymoedd (Saesneg yn unig)
AQS 27	Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol (Saesneg yn unig)
AQS 28	Cymdeithas y Diwydiant Stofiau (Saesneg yn unig)
AQS 29	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 30	Cycling UK (Saesneg yn unig)
AQS 31	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 32	Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd (Saesneg yn unig)
AQS 33	Y Grid Cenedlaethol (Saesneg yn unig)
AQS 34	Unigolyn (Saesneg yn unig)
AQS 35	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (Saesneg yn unig)
AQS 36	Sustrans Cymru (Saesneg yn unig)
AQS 37	Cyfeillion y Ddaear Cymru
AQS 38	Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwybodaeth Ychwanegol

Teitl	Sefydliad
AQS 02	Asthma and Lung UK (Saesneg yn unig)
AQS 04	Yr Athro Enda Hayes (Saesneg yn unig)
AQS 05	Coleg Brenhinol y Meddygon (Saesneg yn unig)
AQS 07	Dr Victoria Jenkins (Saesneg yn unig)